

Mamaliaid daearol

Dywed adroddiad diweddar Rhestr Goch Cymru ar gyfer mamaliaid bod 1 mewn 39 o'r mamaliaid brodorol neu a arferai fod yn frodorol yng Nghymru mewn bygythiad o ddiflannu, gyda 51% angen gweithredu fel mater o frys.¹ Mae 17 rhywogaeth mamaliaid ar restr Adran 7 Rhywogaethau Blaenoriaeth Cymru gyda'r cyfan, heblaw'r Wiwer Goch, i'w cael yng Ngwent Fwyaf.

Mae mamaliaid yn cynnwys amrywiaeth fawr o leoedd ecolegol, o ysglyfaethwyr fel y Dyfrgi a'r Bele, a phorwyr fel ceirw i rywogaethau pwysig i ysglyfaethwyr fel llygod y dŵr a llygod bach. Maent yn byw mewn amrywiaeth fawr o gynefinoedd yn cynnwys coetir, glaswelltir, ucheldir a gwlypdir. Mae defnydd mamaliaid fel dangosydd o iechyd ecosystem yn amrywio yn ôl y rhywogaeth a hwylustod cofnodi. Er enghraifft, cafodd baw Dyfrgi yn aml ei ddefnyddio fel dangosydd o ansawdd dŵr a phoblogaethau pysgod, gan ei bod yn rhwydd adnabod baw Dyfrgi heb fawr o risg o darfu ar yr anifail.

Mae'r amrywiaeth o rywogaethau mamaliaid, eu hecoleg a'u hyweledd yn golygu fod cofnodi mamaliaid yr un mor amrywiol. Mae gan rai, tebyg i'r Pathew, Llygoden y Dŵr a'r Dyfrgi, eu cynlluniau cofnodi eu hunain, a thrafodir y gorchudd ym mhob adran unigol. Nid yw eraill, yn arbennig famaliaid bach, yn cael eu cofnodi cystal a dim ond cofnodi achlysurol sydd arnynt, neu arolygon cyffredinol tebyg i arolwg Byw gyda Mamaliaid (PTES)² a'r Arolwg Adar Bridio (BTO)³ a ychwanegodd adran ar famaliaid yn 1995.

Yn yr adran hon mae 11 mamal, yn amrywio o famaliaid sydd ar gael yn eang tebyg i'r Mochyn Daear a'r Dyfrgi i Lygoden yr Yd a Llyg y Dŵr a gofnodir yn anaml iawn. Mae straeon llwyddiant amlwg, sef dychwelyd y Dyfrgi i lawer o gyrsiau dŵr, ac ailgyflwyno Llygoden y Dŵr yn llwyddiannus i Wastadeddau Gwent. Rhoddir crynodeb hefyd o'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt dychwelyd yr Afanc i Gymru.

Dylid nodi y cynhwysir ystlumod mewn adran ar wahân.

Mochyn Daear *Meles meles* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Gwarchod Moch Daear (1992) ⁴

Statws cadwraeth: LLEIAF O BRYDER (DU),⁵ LLEIAF O BRYDER: (Cymru) ⁵

Data ar gael: Canolig (857 cofnod)

Cyd-destun: Cynhwysir moch daear yn yr adroddiad hwn oherwydd eu cysylltiad â thwbercwlosis buchol (bTB), gyda Gwent yn ardal lle mae llawer o ddigwyddiadau bTB.⁶



Andy Karran


Yn hanesyddol, mae moch daear wedi cael ei herlid gan giperiaid a ffermwyr neu trwy eu saethu, ac mae'r boblogaeth wedi adfer o gyfnod isel ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.⁷ Credir bod y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn sefydlog neu ar gynydd,⁵ er bod peth ansicrwydd oherwydd y dulliau gwahanol o gynnal arolwg.

Mae'r bygythiadau presennol yn cynnwys gwrthdaro â datblygiadau, anafiadau ar y ffyrdd a lladd cyfreithlon. Ceir nifer o adroddiadau o erlid moch daear o hyd⁸, ond mae'n annhebygol bod y rhain yn arwyddocaol o ran y boblogaeth yn gyffredinol. Trafodir anafiadau ar y ffordd a bTB yn fwy manwl yn y bennod hon.


Rhagolygon: Rhagwelir y bydd y boblogaeth genedlaethol a'r cwmpas i foch daear yn aros yn sefydlog, ac eithrio mewn parthau lladd cyfreithlon yn Lloegr.⁵ Gall lladd ar y ffordd fod yn bryder, fel y mae colli deerydd trwy ddatblygiadau, newid mewn cynefin a darnio tiriogaethau.⁷ Mae ymchwil yn parhau o ran effaith newid hinsawdd.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Crynhoir y cofnodion moch daear ar hyd y priffyrdd ac anheddiadau, gyda chrynhoad anarferol o gwmpas Caerffili. Nid yw'n glir a yw hyn oherwydd nifer fawr o foch daear trefol neu fwy o ymdrech i'w cofnodi – er bod tuedd gynyddol i weld moch daear trefol yn genedlaethol.⁵ Mae tuedd yn y cofnodion hefyd oherwydd bod cofnodion llai manwl yn achosi canolbwynt ffug ar derfyn Torfaen/Sir Fynwy.

Dwysedd cofnodion moch daear (dwysedd uchaf 16 cofnod/km²)



Cofnodion moch daear yn ôl y cofnod diweddaraf/km²




Tueddiadau: Nid oes digon o ddata i roi unrhyw dueddiadau poblogaeth ar gyfer Gwent. Ar lefel genedlaethol, credir bod y poblogaethau moch daear yn sefydlog neu'n cynyddu.⁵

Marwolaethau ar y ffyrdd: Nid yw effaith marolwaethau ar y ffyrdd ar y boblogaeth foch daear yn glir: gan ddefnyddio data a gasglwyd yn yr 1980au, amcangyfrifodd Clark et al.⁹ bod 50,000 o foch daear yn cael eu lladd ar y ffyrdd y flwyddyn. Er bod Harris et al.⁷ yn dod i'r casgliad nad yw'r lefel yma o farwolaethau yn cael effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol, gall creu ffyrdd newydd a'r cynnydd mewn traffig ers yr astudiaethau hyn beri pryder yn awr. Yn ychwanegol, mae gwaith diweddar¹⁰ yn awgrymu bod moch daear yn sensitif i newidiadau yn yr hinsawdd, gyda phatrymau tywydd yn effeithio ar eu gweithgarwch magu a chwilio am fwyd.

Mae bron hanner (42%) y cofnodion moch daear SEWBReC am farwolaethau ar y ffordd (ni ddefnyddir cofnodion GERC a HBRC, gan nad ydynt yn cynnwys sylwadau'r cofnodydd), ac mae 110 o gofnodion marwolaeth ychwanegol o'r Prosiect Splatter. Dangosir y cofnodion marwolaethau ar y ffordd ers 2000 isod. Bydd angen rhagor o waith i ddadansoddi a yw'r patrwm hwn oherwydd mwy o ymdrech gan y cofnodwyr, mwy o draffig ar y ffordd, neu ffactorau eraill, fel hinsawdd, yn cael effaith ar symudiadau moch daear.


Cofnodion marwolaethau moch daear ar y ffordd y flwyddyn (SEWBReC a Phrosiect Splatter) o'r tu mewn i'r ardal astudio. Sylwer bod cofnodion Prosiect Splatter wedi eu cynnwys o 2013 ymlaen.



Twbercwlosis buchol (bTB): Mae'n hysbys bod moch daear yn cario bTB a gallant drosglwyddo'r afiechyd i wartheg, ac i'r gwrthwyneb. Prin yw'r ddealltwriaeth o symudiad yr afiechyd mewn poblogaethau moch daear a'r cyfraddau a'r peirianwaith trosglwyddo,¹¹ er bod trosglwyddo o fewn y rhywogaethau yn digwydd ar gyfraddau uwch na rhwng rhywogaethau.¹²

Mae Gwent yn rhan o Ardal Digwyddedd Uchel Achosion o bTB (Dwyrain), sy'n cynnwys Gwent a'r rhan fwyaf o Bowys.⁶ Dengys yr ystadegau diweddaraf¹³ bod yr achosion bTB yn yr ardal yn gostwng, er yn raddol, er bod bTB yn parhau yn fwy amlwg yn yr ardal na chyfartaledd Cymru.


Achosion newydd, caeedig ac agored o bTB yn yr Ardal TB Uchel (Dwyrain)¹³



Ar hyn o bryd, polisi Llywodraeth Cymru yw parhau i fonitro'r achosion o bTB mewn moch daear,¹⁴ ac mae rhaglen ar gyfer casglu a dadansoddi moch daear marw ar waith.¹⁵ Cynigiwyd grant i dalu am hyd at 50% o gostau brechu moch daear yn 2019.¹⁶

Gwarchodaeth: Dim ond 31% o'r cofnodion sydd o safleoedd a warchodir. Mae tuedd yn y cofnodion o ran moch daear, gan fod llawer o'r cofnodion yn dod o farwolaethau ar y ffordd (gweler isod) neu safleoedd datblygu posibl, nad ydynt wedi eu gwarchod. Gan nad ydynt yn rhywogaeth y mae pryder neilltuoel amdanynt o ran cadwraeth, ychydig iawn o arolygon penodol i foch daear sydd ar gael. Mae rhywfaint o gyndynrwydd hefyd efallai ar ran rhai cofnodwyr i rannu lleoliad moch daear, yn arbennig deyerydd, oherwydd yr erlid arnynt.

Cofnodion moch daear o safleoedd a warchodir



Afanc Ewropeaidd *Castor fiber* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:³ Atodiad 3 Confensiwn Bern yn Ewrop, Rheoliadau Cynefinoedd (1994) yr Alban yn unig

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth), Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ MEWN PERYGL (DG), dim yn berthnasol (Cymru)

Data ar gael: Gwael (dim cofnodion)

Cyd-destun: Cynhwysir yr Afanc Ewropeaidd yma oherwydd gwaith Prosiect Afancod Cymru, sydd ar hyn o bryd yn ymchwilio i ddichonolrwydd ail gyflwyno'r Afanc i Gymru.

Erlidiwyd afancod nes iddynt ddiflannu o Brydain yn yr 16eg ganrif, a dim ond tua 1,200 o anifeiliaid oedd ar ôl yn Ewrop erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif. O ganlyniad i'w hail gyflwyno ac ail sefydlu naturiol, mae afancod wedi dychwelyd i'w cwrpas blaenorol ar draws tir mawr Ewrop. Deillia llawer o'r brwdfrydedd dros adfer afancod i'r Deyrnas Unedig o'u rôl fel 'peirianwyr ecosystem': Mae afancod yn addasu eu cynefin, gan arafu llif dŵr a chynyddu bioamrywiaeth.¹⁷

Ail gyflwyno i'r Deyrnas Unedig: Yn y Deyrnas Unedig, ail gyflwynwyd afancod yn llwyddiannus yn Knapdale, yr Alban yn 2009 a rhoddwyd statws Rhywogaeth a Warchodir Ewropeaidd iddynt yn yr Alban y flwyddyn honno. Tyfodd y boblogaeth yn Knapdale i tua 430 anifail yn 2017.¹⁸ Sefydlwyd ail boblogaeth yn yr Alban trwy anifeiliaid oedd wedi dianc neu eu rhyddhau heb drwydded ar Afon Tay, ac amcangyfrifwyd bod tua 433 o anifeiliaid yno yn 2017-18.¹⁹

Yn Lloegr, arweiniodd anifeiliaid wedi dianc neu eu rhyddhau heb drwydded at boblogaeth yn magu ar Afon Otter yn Nyfnaint. Yn 2015 rhoddwyd trwydded bum mlynedd i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Dyfnaint astudio'r boblogaeth oedd yno ac ail gyflwyno anifeiliaid ychwanegol. Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn awr yn saith o barau sy'n magu o leiaf.²⁰ Mae afancod wedi eu rhyddhau hefyd i safleoedd caeedig yng Nghaint, Dyfnaint, Cernyw,⁶ Swydd Efrog²¹ a Swydd Gaerloyw,²² a bwriedir rhyddhau rhagor yn Dorset,²³ Gwlad yr Haf a Surrey.²⁶

Yng Nghymru, fe wnaeth Prosiect Ailgyflwyno'r Afanc gynnal astudiaeth dichonolrwydd²⁵ a ddaeth i'r casgliad: 'Mae ail gyflwyno afancod i Gymru yn ddichonadwy yn ecolegol, gydag ail sefydlu a rheoli'r effeithiau yn bosibl ar gostau cymharol isel. Mae afancod yn cynnig manteision sylweddol o ran gwasanaethau ecosystem a chadwraeth bioamrywiaeth, ac mae manteision cymdeithasol o ran ysgogi twristiaeth yn ogystal â chyfluoedd addysgol a hamdden.' Ym Mawrth 2021, rhyddhawyd y ddau afanc cyntaf (oedolyn gwrywaidd a'i epil) dan drwydded i Warchodfa Natur Cors Dyfi ym Mhowys, a disgwyli'r i ragor o unigolion o'r un uned deuluol ddilyn yn fuan.

Mae cofnodion diweddar²⁶ o arwyddion o afancod yn y caeau ger Afon Dyfi nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhyddhau dan reolaeth, ond nid yw'n hysbys o ble daeth yr anifail neu anifeiliaid, na sawl un ohonynt sydd yno.



Allard Martinus

Statws Gwent Fwyaf: Dynododd Prosiect Ailgyflwyno Afancod Cymru chwe dalgylch yng Nghymru lle gellid ail gyflwyno afancod, ond nid oes yr un ohonynt yng Ngwent. Tynnwyd dalgylchoedd y Gwy a'r Hafren o'r arolygon cynefin yn gynnar oherwydd y cymhlethdodau ychwanegol posibl oherwydd trwyddedu a deddfwriaeth traws-ffiniol.²⁷ Ar hyn o bryd, yr afancod agosaf y gwyddys amdanynt yw pâr mewn ardal gaeedig yn Fforest y Ddena.

Rhagolygon: Rhagwelir y bydd y boblogaeth o afancod a'u cwmpas yn cynyddu ar lefel y Deyrnas Unedig.⁵ Yng Nghymru mae'r afanc yn parhau i fod â statws cyfreithiol amwys, a byddai angen rhagor o waith o ran dewis safleoedd a chynigion ail gyflwyno manwl cyn y gellid eu rhyddhau dan drwydded.²⁵

Yr Ysgyfarnog *Lepus europaeus* (Pallas, 1778)

Gwarchodaeth: Deddf Hela (2004)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁴ dim yn berthnasol (DU), dim yn berthnasol (Cymru)

Data ar gael: Cymedrol (294 cofnod)

Cyd-destun: Credir bod ysgyfarnogod wedi eu cyflwyno i Brydain yn y cyfnod Rhufeinig ac roeddent unwaith yn gyffredin ar dir amaethyddol. Y rhain oedd ymhlith y rhywogaethau cyntaf i'w hychwanegu at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (Rhestr Blaenoriaeth UKBAP), yn dilyn amcangyfrifon bod y boblogaeth wedi gostwng o tua 75% ers yr Ail Ryfel Byd.²⁷ Nid yw'r rhesymau am y gostyngiad yn cael eu deall yn llawn, er y credir bod cysylltiad â newidiadau mewn arferion ffermio, gan gynnwys defnyddio caeau mwy, peiriannau a chemegolion amaethyddol, a newidiadau mewn cnydau. Gall y nifer cynyddol o ysglyfaethwyr, llwynogod yn neilltuol, hefyd fod yn ffactor.⁷




Andy Karran


Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig yn aros yn sefydlog, er bod rhywfaint o bwysau negyddol o newidiadau mewn arferion amaethyddol, rheoli plâu a newid hinsawdd.⁴ Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall cynlluniau amaeth-amgylcheddol gael effaith gadarnhaol,³¹ ond ni welwyd hyn ar draws yr holl ffermydd.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir ysgyfarnogod ar draws Gwent Fwyaf, gyda'r dosbarthiad yn cyfateb yn fras i gynefinoedd tir âr yn Sir Fynwy, Casnewydd a gorllewin Caerffili. Ystyrir bod Gwent Fwyaf ar gyrrion y cynefin gorau i ysgyfarnogod oherwydd amlygrwydd ffermio da byw:²⁷ Gwelir ysgyfarnogod ar ffermydd bugeiliol ond mae cyfraddau goroesi oedolion yn is yno.²⁸ Mae niferoedd uchel o gofnodion diweddar o Wlypdir Casnewydd, sydd mae'n debyg o ganlyniad i ymdrechion i gofnodi, tra mai prin yw'r cofnodion diweddar o ffiniau Mynwy/Casnewydd, er bod llawer o gofnodion hanesyddol yno.

*Dwysedd cofnodion
ysgyfarnogod
(dwysedd uchaf 25
cofnod/km²)*




*Cofnodion
ysgyfarnogod yn ôl
degawd*



Tueddiadau: Gan mai rhywogaeth hela yw'r ysgyfarnog, gellir defnyddio data o Gyfrifiad Bagiau Hela Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwylt (GWCT) i fesur tueddiadau. Mae 19 o safleoedd ar draws yr ardal astudio yn rhoi data i GWCT, ond nid yw pob safle yn rhoi adroddiad bob blwyddyn; y nifer o ffurflenni blyneddol ar gyfartaledd ers 1970 yw 5.8 safle.²⁹ Mae'r duedd dros dro hon yn seiliedig ar y canran o safleoedd sy'n rhoi adroddiad am bresenoldeb yr ysgyfarnog, gan fod y ffigyrau ar gyfer y bagiau yn absennol yn gyffredinol ers 1993.


Dengys y ffurflenni Cyfrifiad Bagiau Hela Cenedlaethol ar gyfer ardal yr astudiaeth gynnydd diweddar yn y ganran o safleoedd sy'n cofnodi presenoldeb ysgyfarnogod, er bod hyn yn seiliedig ar nifer fechan o ffurflenni. Adlewyrchir hyn yn y ffurflenni cenedlaethol, lle mae dwyster y bagiau (anifeiliaid a laddwyd i bob km²) yn dangos gostyngiad tymor hir ond cynnydd diweddar, y credir ei fod yn gysylltiedig â chyflwyno neilltir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.³⁰

Canran o safleoedd yn yr ardal astudio sy'n cofnodi presenoldeb ysgyfarnogod, o'r Cyfrifiad Bag Hela Cenedlaethol^{29,26}



Gwarchodaeth: Daw ychydig llai na'r hanner (47%) o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o NNR Casnewydd. Sylwer bod yr ysgyfarnog yn rhywogaeth sy'n cael ei hela ac y gall fod yn bla amaethyddol. Gwarchodir ysgyfarnogod yn ystod eu cyfnod magu ar dir heb ei gau.


Cofnodion ysgyfarnogod o safleoedd a warchodir



Arolwg ysgyfarnogod a chornchwiglod: Yn 2006, arweiniodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent ymgyrch i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cofnodion ysgyfarnogod. Cyflwynwyd 54 cofnod yn 2006; cyn hyn, roedd cyfartaledd y nifer o gofnodion y flwyddyn yn ddim ond 3.7, felly, roedd hyn yn gynydd 15 gwaith. Derbyniwyd cofnodion gan bob awdurdod lleol ac eithrio Torfaen. Defnyddiodd deg ar hugain o'r cofnodion gardiau arolwg wedi eu hargraffu yn arbennig, oedd yn dangos y rhywogaethau a ffurflen ar gyfer y cofnod, er y gall cofnodion eraill fod wedi bod o ganlyniad i'r cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau.

Dengys hyn y gall rhaglenni ymwybyddiaeth gyhoeddus fod yn effeithiol wrth greu cofnodion newydd ac mae'n dangos nad yw'r ysgyfarnog yn cael ei chofnodi'n llawn yn gyffredinol ar draws Gwent Fwyaf.

Niferoedd blynyddol o gofnodion SEWBRc ar gyfer ysgyfarnogod; yn dangos effaith Arolwg Ysgyfarnogod a Chornchwiglod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent yn 2006



Pathew *Muscardinus avellanarius* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau – Atodlen 2 (2017). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ BREGUS (DU a Chymru)




Lowri Watkins

Data ar gael: Da (2,044 cofnod)


Cyd-destun: Ar draws y Deyrnas Unedig, mae'r gostyngiad yn niferoedd y pathew wedi ei gofnodi'n dda. Credir bod eu cwmipas wedi lleihau i'w hanner ers 1885, ac ers i fonitro cyson ddechrau yng nghanol yr 1990au, amcangyfrifir bod y niferoedd wedi gostwng o 55%.³² Mae'r ymdrechion cadwraeth yn cynnwys gwarchodaeth ddeddfwriaethol, cyhoeddi canllawiau arfer gorau,³³ cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd (yn neilltuoel trwy'r Helfa Gnau Fawr), a sefydlu'r Rhaglen Fonitro Pathewod Genedlaethol (NDMP), yn ogystal â rheoli safleoedd gan amrywiaeth o sefydliadau.

Rhagolygon: Mae Matthews et al.⁵ yn rhagweld, er bod cwmipas y pathew yn debygol o aros yn sefydlog, bod y boblogaeth a'r cynefin yn debygol o leihau. Yr hyn sy'n gyrru'r newid yw darnio cynefin a lleihad yn yr amrywiaeth mewn rhywogaethau coetir. Mae newid hinsawdd hefyd yn debygol o effeithio ar boblogaethau'r pathew,^{5,32} er nad yw'r effaith i gyd yn sicr, gan fod y math o goetir yn ffactor.


Cwmipas Gwent Fwyaf: Yn yr 1990au cynhaliwyd sawl arolwg i bennu dosbarthiad y pathew yng Nghymru. Cyfunodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent³⁴ ganlyniadau'r rhain i gynhyrchu map o sgwariau 10km oedd â chofnod o arwyddion yn y caeau, roedd 17 ohonynt yn rhannol neu yn gyfan gwbl yng Ngwent Fwyaf. Dangosir y newidiadau yn y cwmipas ar y raddfa eang hon isod.



Sgwariau 10km gydag arwyddion yn y caeau, yn deillio o Jermyn Messenger a Birks (2001)³¹




Sgwariau 10 km gyda chofnodion o 2000-2009. Sgwariau gyda <5 cofnod yn wyrdd goleuach.



Sgwariau 10 km gyda chofnodion o 2010-2019. Sgwariau gyda <5 cofnod yn wyrdd goleuach.


Ar raddfa uwch, mae dosbarthiad y pathew yn fwy darniog. Mae'r cofnodion wedi crynhoi yng nghanol a dwyrain Sir Fynwy, a de Caerffili, gan ymestyn i Gasnewydd. Mae band o gofnodion ar draws y ffin ogleddol rhwng Sir Fynwy a Swydd Henffordd, sy'n cyfateb i'r cofnodion ar hyd yr A465 (gweler Patrymau Cynefin isod). Mae'r prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yng Nghoed Croes Robert, Caerwent, Coed Graig, Coed Cefn Pwll-du, Harpers Grove a Wyndcliff (sy'n cyfateb i leoliadau NDMP).

Mae'n ymddangos hefyd bod y cwmpas wedi cyfyngu yn fawr iawn, dim ond hanner y sgwariau grid y cofnodwyd pathew ynddynt sydd â chofnodion o'r degawd diwethaf. Er y gallai hyn fod yn rhannol oherwydd llai o gofnodi, neu fod y cofnodi yn canolbwyntio ar fonitro'r poblogaethau allweddol, mae'n dal i beri pryder.



*Dwysedd cofnodion
pathewod, (uchafswm
138 cofnod/km²)*


*Cofnodion pathewod
yn ôl degawd o'r
cofnod diweddaraf*



Patrymau cynefin: Mae'r amodau gorau i bathewod yn debygol o gael eu gweld mewn coetir eang, hynafol lled-naturiol.³³ Yng Ngwent Fwyaf, mae 55% o'r cofnodion yn digwydd mewn coetir hynafol lled-naturiol, planhigfeydd ar goetir hynafol, coetir hynafol a adferwyd neu goetir hynafol o categori anhysbys. Credir bod darnio'r cynefin coetir yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar ddsbarthiad y pathew,³⁵ ac mae 69% o gofnodion Gwent Fwyaf yn digwydd yn y Rhwydwaith Coetir Craidd³⁶ - yr ardal lle mae mwyaf o gysylltiad rhwng coetiroedd.

Y tu allan i'r cynefinoedd traddodiadol yma i'r pathew, mae crynhoad trawiadol o gofnodion pathew ar hyd y prif ffyrdd, yn neilltuol yr M4, A40, A449 a'r A465 yn Sir Fynwy a Chasnewydd. Er bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r ymdrech wrth arolygu, fe sylwyd ar y ffenomenon yma mewn mannau eraill, gyda'r dystiolaeth yn awgrymu y gall y dwyster o bathewod ar ymylon ffyrdd fod yn ddwy neu dair gwaith yn uwch nag yn y tirwedd ehangach.³⁷

Tueddiadau poblogaeth: Mae'r Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol (NDMP) yn cynnwys cyfrif blychau nythu pathew yn fisol, gyda'r uchafswm o ran cyfri'r oedolion yn y gwanwyn (Mai neu Fehefin) i bob 50 blwch yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd i'r boblogaeth cyn magu. Mae 21 o safleoedd ar draws Gwent wedi eu cofrestru gyda'r NDMP,³⁸ a ddangosir isod. Fodd bynnag, dim ond wyth o'r rhain sydd â set ddata barhaus o fwy na phum mlynedd, gyda phedwar o'r safleoedd nad ydynt yn cael eu monitro yn dda yn gyson yn rhoi cyfrif gwanwyn o ddim.




Lleoliad bras safleoedd NDMP, gyda dwyster y cofnodion pathew. Maint y pwynt yn dynodi'r nifer o ffurflenni'n y gwanwyn.


Trwy ddefnyddio'r uchafswm o'r wyth safle hwn ar gyfartaledd ceir tuedd ar gyfer y boblogaeth o bathewod yng Ngwent, a ddangosir isod gyda'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru. Fodd bynnag mae'r set ddata mor fach, ac wedi ei gogwyddo gan y niferoedd uchel yn gynnar a dirywiad yng Nghoed Croes Robert a Choed Wet Meadow (safleoedd cyfagos yn Sir Fynwy), fel nad oes sicrwydd am y tueddiadau yma. Mae cyfartaledd Gwent yn aml yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru a'r Deyrnas Unedig.

Darlunnir hyn trwy ffurflenni unigol o bedwar safle NDMP: Coed Croes Robert, Coed Wet Meadows, Caerwent a Harpers Grove. Dengys hyn yr amrywiaeth mawr rhwng blynnyddoedd, gan fod poblogaethau pathew yn sensitif iawn i'r tywydd,³² yn ogystal â'r amrywiaeth rhwng gwahanol safleoedd. Mae'n bosibl hefyd bod y nifer isel o flychau yn cryfhau'r amrywiad mawr hwn.

Cymedr uchafswm y cyfrif yn y gwanwyn o bathew sy'n oedolion i bob 50 blwch^{38,39}




Cymedr uchafswm y cyfrif yn y gwanwyn o bathewod sy'n oedolion i bob 50 blwch mewn 4 safle yng Ngwent^{38,35}



Gwarchodaeth: Er bod pathewod unigol a'u manau magu a gorffwys yn cael eu gwarchod gan y gyfraith, mae'r rhan fwyaf (52%) o gofnodion pathewod yng Ngwent Fwyaf wedi eu cael y tu allan i'r ardaloedd a warchodir. Daw'r cofnodion Ardal Gadwraeth Arbennig o Goetir Dyffryn Gwy, yn fwyaf nodedig yn Wyndcliff, a daw'r cofnodion SSSI o Goed Croes Robert, Coed Gaer, Coed Coombe Valley a Choetir Ruperra. Daw'r cofnodion SINC (Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur) o nifer o safleoedd trwy Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerffili - gan fod yr holl goetir hynafol yn SINC dynodedig. Dylid sylw, fodd bynnag, nad yw hyn yn ystyried cofnodion wedi eu canoli na symudedd y pathew, ac efallai bod llawer mwy o gofnodion yn gysylltiedig â safleoedd a warchodir neu'n agos atynt.

Cofnodion pathewod o safleoedd a warchodir



Llygoden yr Ŷd *Micromys minutus* (Pallas, 1771)

Gwarchodaeth: dim

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ DAN BETH BYGYTHIAD (DU), BREGUS (CYMRU)

Data ar gael: Gwael (45 cofnod)

Cyd-destun: Llygoden yr Ŷd yw llygoden leiaf Prydain ac fe'i gwelir mewn amrywiaeth o gynefinoedd

glaswellt tal, o gnydau grawn traddodiadol a chaeau gwair i welyau hesg, ymylon ffyrdd gweiriog a gwrychoedd. Mae'n anodd amcangyfrif y boblogaeth oherwydd bod llwyddiant gwahanol dulliau o gynnal arolygon yn amrywio,⁴⁰ dosbarthiad anwastad y boblogaeth leol⁴¹ ac amrywiadau tymhorol mawr.⁵ Canfu arolygon a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Mamaliaid nad oedd gan 71% o'r safleoedd oedd ag arwyddion o lygod yr Ŷd yn 1979 unrhyw arwydd pan ail ymwelwyd â nhw yn yr 1990au, a bod y cynefin wedi cael ei gollu'n llwyr yn tua hanner y safleoedd yma,⁴² gan arwain at eu dynodi yn Rhywogaeth Blaenoriaeth dan y cynllun gweithredu bioamrywiaeth. Yng Nghymru, prin iawn yw'r cofnodion: dim ond 139 o gofnodion ar gyfer Cymru gyfan yn 2013.⁴³


Rhagolygon: Er nad oes digon o ddata i ddangos tuedd hanesyddol, y rhagolygon ar gyfer llygod yr Ŷd yw y bydd y boblogaeth yn gostwng, oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a newid hinsawdd.⁵ Mae angen brys hefyd i gael rhagor o ddata i ddeall y defnydd o'r cynefin a deinameg y boblogaeth, yn ogystal â gwella'r dulliau cynnal arolwg.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion llygod yr Ŷd yn rhan ddeheuol Gwent Fwyaf; ni welir llygod yr Ŷd yn yr ucheldir. Mae'r prif ganolfannau ar Gors Magwyr, lle cynhaliwyd arolygon llygod yr Ŷd cyson (er ei bod yn bosibl bod peth dyblygu), ac o gwmpas Coed Gwent, lle mae clwstwr o gofnodion yn dyddio o'r 1970au. Mae'r cofnodion o amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys gwelyau hesg ac ochrau'r ffyrdd. Cofnodion o nythod unigol yw'r mwyafrif, er bod un arolwg ym Magwyr wedi dod o hyd i saith nyth.




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion
llygod yr yd, (uchafswm o
9 cofnod/km²)*




*Cofnodion llygod yr yd yn
ôl degawd*



Tueddiadau: Nid oes digon o gofnodion i sefydlu tuedd y boblogaeth ar gyfer llygod yr ŷd yng Ngwent Fwyaf. Nid oes digon o ddata i sefydlu tueddiadau poblogaeth ar gyfer Prydain⁵ na Chymru.⁴⁴ Mae'n debygol bod newidiadau mewn arferion amaethyddol wedi effeithio ar boblogaethau, ond nid yw graddfa a dosbarthiad yr effeithiau hynny'n hysbys.⁵

Gwarchodaeth: Daw dros ddwy ran o dair (68%) o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda'r rhan fwyaf o'r cofnodion diweddaraf yn dod o warchodfeydd natur sy'n cael eu rheoli, lle mae cynefin o safon uwch sy'n cael ei reoli'n gyson ar gael a mwy o ymdrech i gofnodi, gydag arolygon penodol mewn rhai manau.


Cofnodion llygod yr ŷd o safleoedd a warchodir



Arolygon yn y dyfodol: Amrywiol yw llwyddiant arolygon llygod yr ŷd.^{40,41} Chwilio am nythod sy'n cymryd lleiaf o amser, ac mae wedi rhoi canlyniadau ar Gors Magwyr; ond mae trapio, gyda thrapiau Longworth yn neilltuol, wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn lleoliadau eraill.⁴⁵ Mae rhai astudiaethau yn cael mwy o lwyddiant yn gosod y trap ar y ddaear,⁴⁶ eraill yng nghanol y coesynnau.⁴⁴ Bu gwaith yn ddiweddar hefyd yn defnyddio cwpanau abwyd yng nghanol y coesynnau gyda chamrau⁴⁷ neu gasglu ysgarthion ar gyfer profion DNA.⁴⁸ Gall fod yn bosibl y gallai rhai o'r technegau hyn ddod o hyd i lygod yr ŷd mewn ardaloedd newydd.

Mae Tapping (2013)⁴³ wedi ceisio dynodi'r manau tebygol i ddod o hyd i lygod yr ŷd yng Nghymru, ar sail cofnodion diweddar a chynefin addas yn y rhwydwaith cynefin glaswelltir yr iseldir. Gosodwyd y darnau o'r cynefin glaswelltir mewn trefn yn ôl yr ardal o gynefin addas o'u mewn, er mwyn dod o hyd i ardaloedd lle gellid dod o hyd i lygod yr ŷd. Fodd bynnag, mae sawl problem gyda'r gwaith hwn, yn benodol oedran yr arolwg Cam 1 y mae'n seiliedig arno a'r ffaith nad oedd rhai o gynefinoedd llygod yr ŷd, fel ochrau ffyrdd, wedi eu mapio yn yr arolwg Cam 1 gwreiddiol.

Mae'r map isod yn dangos terfynau'r parth arolwg posibl a ddisgrifir gan Tapping, gyda'r rhwydweithiau cynefin Craidd a Chanolog a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.³⁶ Mae cofnodion diweddar (ar ôl 1980) yn cael eu dangos mewn gwyrdd, gyda chofnodion hanesyddol mewn melyn.



Draenog Gorllewin Ewrop *Erinaceus europaeus* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 6

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP. Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ BREGUS (DG), BREGUS (Cymru)

Data ar gael: Da (1,824 cofnod)



Andy Karran


Cyd-destun: Ychwanegwyd draenogod at restr Rhywogaethau sy'n cael Blaenoriaeth BAP UK yn 2007, yn dilyn canlyniadau arolwg oedd yn dangos gostyngiad parhaus.⁴⁹ Mae'r amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod y boblogaeth wedi gostwng o gymaint â 73% ers 1995,⁴ er bod peth ansicrwydd oherwydd y gwahaniaethau yn y dulliau cynnal arolwg. Priodolir y dirywiad i nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys newidiadau amaethyddol, marwolaethau ar y ffordd, ysglyfaethu gan foch daear, a cholli a darnio cynefin. Mae'r gwahaniaethau rhwng arolygon gwledig a threfol yn awgrymu, i ddraenogod trefol, bod y dirywiad wedi arafu'n ddiweddar, ac y gall y boblogaeth fod yn cynyddu'n awr; mae'r duedd ar gyfer poblogaethau gwledig yn llai clir: canfu arolwg yn ddiweddar⁵⁰ ddraenogod mewn dim ond 22% o'r safleoedd gwledig a samplwyd.

Croesawir draenogod yn aml i erddi trefol, ac mae'n ymddangos bod cynefinoedd trefol yn gynyddol bwysig i'r boblogaeth yn gyffredinol. Gall dwysedd draenogod mewn ardaloedd trefol fod cymaint â naw gwaith yn uwch nag mewn ardaloedd gwledig,⁵¹ credir bod hynny oherwydd y cynnydd yn y bwyd anthropogenig, cyfleoedd i lochesu a llai o ysglyfaethu. Awgrymir, hyd yn oed, y bydd draenogod yn mynd i'r pentrefi yng nghefn gwlad.⁵² Lansiodd Hedgehog Street, hyb ar-lein yn hyrwyddo gerddi sy'n gyfeillgar i ddraenogod a gwella'r cysylltedd i ddraenogod, yn 2011 gan y Peoples Trust for Endangered Species a Chymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain. Hyd yn hyn, mae 90 o dyllau draenogod wedi eu creu a'u mapio yn ardal yr astudiaeth.⁵³


Rhagolygon: Y dyfodol a ragwelir ar gyfer draenogod yw y bydd y dirywiad yn parhau⁵ oherwydd gostyngiad yn ardal y cynefin a'i ansawdd. Ni ddeallir effaith newid hinsawdd ar boblogaethau draenog yn llawn, ond credir y gall gaeafau cynhesach a gwlypach gael effaith niweidiol trwy effeithio ar aeafgysgu.⁵⁷ Mae'n ymddangos y bydd cynefinoedd trefol yn gynyddol bwysig i ddraenogod.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae cofnodion draenogod wedi eu gwasgaru'n eang dros Went Fwyaf, gydag ychydig mwy o grynhoed o gofnodion mewn ardaloedd trefol. Mae hyn yn wir oherwydd tuedd cofnodwyr, ond gall hefyd adlewyrchu bod mwy o ddwysedd o ddraenogod mewn ardaloedd trefol a maestrefol. Ceir ychydig o fannau â dwysedd uchel yng Nghas-gwent (187 cofnod), Cwmbrân (87 cofnod) a Deri (30 cofnod). Mae'n debygol bod y rhain yn gyfuniad o gofnodion wedi eu canoli, dyblygiadau ac ymdrech arbennig gan y cofnodwr. Mae'r map isod wedi ei osod fel petai 25 yn uchafswm y cofnodion, er mwyn dangos peth amrywiaeth yn y manau â dwyster is.

*Dwysedd cofnodion draenogod
(uchafswm dwyster ≥ 25)*



Cofnodion draenogod yn ôl dyddiad




Tueddiadau: Mae tueddiadau'r Deyrnas Unedig yn deillio o sawl arolwg, gan gynnwys yr arolwg Mamaliaid ar Ffyrdd, ymgyrch Wyllo Adar yr Ardd, Arolwg Adar Magu, Living with Mammals a Hogwatch. Mae'r holl arolygon yn dangos gostyngiad yn y digwyddiadau a'r niferoedd dros gyfnodau amrywiol o amser yn y 25 mlynedd diwethaf.⁵⁴ Roedd cyfuno canlyniadau'r arolygon yma tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ac mae'n debygol nad oedd digon o fannau arolygu yn ardal yr astudiaeth i roi tuedd gadarn.

Mae'r nifer o ddraenogod a laddwyd ar y ffyrdd yn ardal yr astudiaeth wedi cynyddu dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a mwy o ymdrech i gofnodi. Cynhwysir cofnodion Prosiect Splatter o 2013 ymlaen.


Mae'n bwysig nodi hefyd bod y rhan fwyaf o'r cofnodion lladd ar ffyrdd yn dod o'r ardal drefol a chyrion trefi: daw 46% o'r cofnodion anafiadau ffordd o'r ardal drefol a maestrefol yn ôl diffiniad LCM 2015, ac mae hyn yn codi i 69% ac 81% gydag ardal glustog o 100m a 250m yn eu tro. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith a wnaed gan Wright et al. (2020)⁵⁵ sy'n dangos bod ardaloedd gyda gorchudd trefol cymedrol (y brig ar 50%) a gorchudd glaswelltir uchel â thebygolrwydd cryf y byddai draenogod yn cael eu lladd ar ffyrdd.

Nifer blynyddol draenogod a laddwyd ar ffyrdd yn ardal yr astudiaeth o 2001 ymlaen



Gwarchodaeth: Ychydig iawn o gofnodion o ddraenogod (7%) sydd o safleoedd a warchodir; mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r cofnodion o ardaloedd trefol a maestrefol a ffyrdd sy'n llai tebygol o fod yn cael eu gwarchod. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o warchodfeydd yn annhebygol o fod yn arolygu neu fonitro unrhyw boblogaethau o ddraenogod sydd yno. Fodd bynnag, dylid nodi y gall ardaloedd o laswelltir a mannau gwyrdd eraill mewn ardaloedd trefol ond y tu allan i erddi fod yn gynefin pwysig i ddraenogod⁵² ac yn llwybrau cysylltiol pwysig.⁵

Cofnodion draenogod o safleoedd a warchodir



Dyfrgi Ewropeaidd *Lutra lutra* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:⁴ Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau – Atodlen 2 (2017). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), BREGUS (Cymru)



Andy Karran

Data ar gael: Da (1,004 cofnod)


Cyd-destun: Dioddefodd y dyfrgi Ewropeaidd ddirywiad difrifol yng nghanol y 19eg ganrif o ganlyniad i lygredd a effeithiodd ar y stoc o bysgod. Pan gynhaliwyd yr arolwg dyfrgwn cyntaf yng Nghymru, yn 1977-78, dim ond mewn 20% o safleoedd arolygu y cafwyd hyd i olion dyfrgwn; erbyn 2010, canfuwyd olion dyfrgwn mewn 90% o'r safleoedd arolygu.⁵⁸ Priodolir yr adferiad cryf hwn i'r warchodaeth gyfreithiol gref a gwelliannau i ansawdd dŵr, ac mae dyfrgwn yn awr wedi dychwelyd i'r rhan fwyaf o'u cwmpas blaenorol yn y Deyrnas Unedig.⁵ Mae'r boblogaeth o ddyfrgwn wedi hen sefydlu yng Ngwent, gyda dyfrgwn yn brif nodwedd dynodi ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Gwy ac Wysg.⁵⁹

Dylid nodi, er bod nifer fawr o gofnodion dyfrgwn, mae llawer o gofnodion dyblyg, gan fod nifer o sefydliadau yn casglu cofnodion dyfrgwn, sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda SEWBRc. Er i ymdrechion gael eu gwneud i gael gwared ar ddyblygiadau, mae'n bosibl bod rhai yn dal ar ôl.


Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, rhagwelir bod y boblogaeth o ddyfrgwn yn mynd i barhau i gynyddu ac ehangu ei gwmpas.⁵ Credir bod y boblogaeth o ddyfrgwn wedi cyrraedd yr uchafswm posibl mewn rhai mannau, gan gynnwys Dyffryn Gwy, a disgwylir i'r ailsefydlu fod yn gyflawn, a thrwy Brydain i gyd erbyn 2030.⁸⁰

Cwmpas Gwent Fwyaf: Dosbarthir dyfrgwn yn gyfartal ar draws Gwent i gyd, ac maent yn crynhoi ar hyd y prif afonydd, yn arbennig Afon Wysg a Gwy a'r Afon Gwy, a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Gwelir niferoedd mawr ar Gors Magwyr a Pharc Gwledig Bargoed, ond mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i fwy o ymdrech gan gofnodwyr yn y lleoliadau hyn.


*Dwysedd cofnodion
dyfrgwn (dwysedd
uchaf 21 cofnod/km²)*



Cofnodion dyfrgwn yn ôl y cofnod diwethaf/km²



Tueddiadau: Cynhaliwyd arolygon cenedlaethol cyson ar gyfer dyfrgwn yng Nghymru ers 1977, felly mae set ddata dda yn dangos cynnydd cyson yn y cwmpas. Cynhwysir Gwent Fwyaf mewn tri dalgylch astudio: Gwy, Wysg a Thâf, er bod y tri yn ymestyn tu hwnt i Went Fwyaf. Dangosir y canlyniadau o Arolwg Dyfrgwn Cymru⁵⁸ ar gyfer pob dalgylch isod:




Gan ddefnyddio manau samplo o'r tri dalgylch sydd yng Ngwent Fwyaf ceir canran feddiannu o 87.5% yn 2010. Gwelwyd safleoedd negyddol yng Ngwent Fwyaf ar isafonydd Afon Lwyd a Rhydymni, yn ogystal â rhan orllewinol Gwastadeddau Gwent. Yn hytrach na bod yn ardaloedd y mae dyfrgwn yn absennol ohonynt, awgrymir bod y safleoedd yma'n cael eu defnyddio'n fwy achlysurol gan ddyfrgwn, ac felly yn fannau lle mae'n llai tebygol y bydd olion dyfrgwn i'w gweld.⁵⁸

Marwolaethau ar y ffyrdd: Gwelwyd cynnydd yn y nifer o ddyfrgwn sy'n cael eu lladd ar y ffordd ar draws y Deyrnas Unedig ers canol yr 1980au,⁶⁰ er y gall hyn fod o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth a chofnodi. Nid yw'n glir a yw anafiadau ffordd yn cael effaith arwyddocaol ar y boblogaeth o ddyfrgwn – awgrymir y gall difrifoldeb yr effaith amrywio rhwng rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.⁶⁰ Fodd bynnag, mae oblygiadau clir o ran lles anifeiliaid, yn arbennig pan fydd rhai benyw â dyfrgwn bach yn cael eu lladd, a rhestrir effaith ffyrdd yn bryder difrifol wrth roi adroddiadau o ran y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn y Deyrnas Unedig.⁶¹


Cychwynwyd Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd yn 1992 i gasglu dyfrgwn i roi archwiliad post mortem iddynt.⁶² Er bod dadansoddiad post mortem yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth mawr o brosiectau ymchwil, fel tocsicoleg ac astudiaethau genynnol, gall lleoliad y marwolaethau ar ffyrdd gael ei ddefnyddio i ddynodi canolfannau ac arwain camau lliniaru. Yn 2012, cynhyrchodd y Prosiect gyfres o adroddiadau yn dynodi ardaloedd lle'r oedd llawer o farwolaethau a'r blaenoriaethau i'w lliniaru.^{63,64} Mae cofnodion SEWBReC a chofnodion Prosiect Splatter yn cynnwys 156 o gofnodion anafiadau ffordd; nid yw cofnodion o GCER, HBRC a NBN yn benodol.

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau cofnodion anafiadau ffordd dyfrgwn, ynghyd ag ardaloedd lle bu nifer o farwolaethau a ddynodwyd gan Wilkinson a Chadwick (2012)^{63,64} fel blaenoriaethau Canolig (oren) ac Isel (melyn) o ran eu lliniaru.



Gwarchodaeth: Yng Ngwent Fwyaf, mae 44% o'r cofnodion yn digwydd ar safleoedd a warchodir, gyda'r mwyafrif o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Nid yw hynny'n adlewyrchu'r warchodaeth lawn ar gynefin dyfrgwn: mae dynodiadau afonydd yn dueddol o fod yn gul ac wedi eu cyfyngu i bwynt y llif uchaf neu bellter penodol ohono, neu hyd yn oed yn cael eu cynrychioli gan linellau yn hytrach nag ardal, felly nid yw cofnodion bob amser yn syrthio o fewn y safleoedd a warchodir er bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan ddyfrgwn efallai. Pan fydd cynefin cymudo neu orwedd dyfrgwn bellter oddi wrth y ddyfrffordd, mae hyn hefyd yn annhebygol o fod yn y safle a warchodir. Fodd bynnag, mae'r holl safleoedd bridio a gorffwys dyfrgwn yn cael eu gwarchod trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, os ydynt mewn safle a warchodir neu beidio.

Cofnodion dyfrgwn a gafwyd ar safleoedd a warchodir yng Ngwent Fwyaf



Bele *Martes martes* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth:⁴ Rheoliadau Cynefinoedd – Atodlen 2 (2010). Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), MEWN PERYGL DIFRIFOL O DDIFLANNU (Cymru)

Data ar gael: Gwael (14 cofnod)



Terry Whittaker (2020 Vision)

Cyd-destun: Roedd y Bele yn gyffredin hyd y 19g ganrif, pan wnaeth eu herlid gan giperiaid arwain at eu diflaniad ar draws Lloegr a'r rhan fwyaf o Gymru. Dechreuodd y boblogaeth yn yr Alban adfer yng nghanol yr ugeinfed ganrif, ond amcangyfrifwyd bod llai na 50 yng Nghymru yn yr 1990au.⁶⁵


Yn 2014, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent asesiad dichonolrwydd ar gyfer atgyfnerthu niferoedd y bele yn Lloegr a Chymru.⁶⁶ Yn dilyn hynny, mae 51 o anifeiliaid wedi eu symud o'r Alban i Ganolbarth Cymru yn 2015-2017,⁶⁷ ac mae 18 o anifeiliaid wedi eu symud i Fforest y Ddena yn 2019.⁶⁸

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae gan y Bele statws Cadwraeth Ffaffriol,⁷⁰ a rhagwelir y bydd y boblogaeth a'r cwmpas yn cynyddu.⁵ Mae'r bygythiadau i'r Bele a'r rhwystrau sy'n ei atal rhag ehangu ei gwmpas yn cynnwys diffyg rheolaeth ar goetir a'u darnio,⁵ a marwolaethau ar y ffyrdd.⁶⁶

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae gan Went gynefin addas i'r Bele (mae'r boblogaeth yn yr Alban yn ffaffrio coetir llydanddail, prysg a glaswelltir).⁶⁶ Mae Rhanbarth Atgyfnerthu Posibl Fforest y Ddena a ddynodwyd gan MacPherson (2014), yn ymestyn i Went, ar hyd Coetir Dyffryn Gwy ar draws i Goed Gwent. Efallai hefyd bod cynefin addas ar hyd y terfyn Caerffili/Merthyr, fel rhan o Ranbarth Atgyfnerthu Posibl Afan.

Mae 12 o gofnodion diweddar o'r bele yng Ngwent Fwyaf, y cyfan wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal astudio ac o fewn y 30 mlynedd diwethaf, y diweddaraf yn 2005. Fodd bynnag, mae cryn amheuaeth am ddilysrwydd a lleoliad y cofnodion, felly dylid ystyried y rhain fel tystiolaeth o unigolion symudol ar y gorau, yn hytrach na phoblogaeth sefydlog.

Map yn dangos lleoliad cofnodion y Bele, ynghyd â rhanbarthau atgyfnerthu posibl a ddynodwyd gan MacPherson (2014)



Tueddiadau: Mae'n rhy gynnar i bennu llwyddiant y prosiectau atgyfnerthu, er bod y rhagolygon yn gadarnhaol.⁵ Mae'r boblogaeth yn yr Alban wedi bod yn ehangu ers yr 1980au, gan ddangos y gall y boblogaeth adfer, er yn araf, os oes cynefin addas.⁶⁹

Ffwlbart *Mustela putoris* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 – Atodlen 6

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU), LLEIAF O BRYDER (CYMRU)

Data ar gael: Cymedrol (292 cofnod)




Andy Karran

Cyd-destun: Dioddefodd ffwlbartiaid ddirywiad difrifol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roeddent wedi diflannu o'r rhan fwyaf o Brydain erbyn 1915.⁷¹ Mae Cymru wastad wedi bod yn gadarnle i'r rhywogaeth, sydd yn dychwelyd eto yn Lloegr erbyn hyn. Er bod y boblogaeth ym Mhrydain yn cynyddu,⁵² mae'n gostwng mewn rhannau o Ewrop.⁷² Mae pryderon eu bod yn croesi â fferetau domestig, ond mae'n ymddangos bod gan y ffwlbart pur fantais dros yr hybrid ffwlbart-fferet, ac mae Gwent Fwyaf wedi ei dosbarthu fel Parth Purdeb Ffwlbart 1 (>95% o'r cofnodion yn cydymffurfio â'r ffenodeip ffwlbart pur) gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Vincent.⁷¹ Mae'r holl siroedd gerllaw hefyd yn Barthau Purdeb Ffwlbart 1, ac eithrio Swydd Gaerloyw, sy'n parhau heb ei dosbarthu oherwydd y nifer isel o gofnodion.


Rhagolygon: Rhagwelir y bydd poblogaeth a chwmpas y ffwlbart yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu. Maent yn defnyddio amrywiaeth fawr o gynefinoedd a gallant addasu i wahanol ffynonellau o ysglyfaeth.⁷¹ Nid yw'n ymddangos bod croesi â fferetau yn peri pryder yn y tymor hir. Fodd bynnag mae'r bygythiadau'n cynnwys trapio a gwenwyno eilaidd trwy wenwyn llygod. Dangosodd dadansoddiad o'r carcasau a gasglwyd yn yr arolwg ffwlbartiaid cenedlaethol bod 79% wedi dod i gysylltiad â gwenwyn llygod; mae hyn yn gynydd o 1.7% ers 1992, gyda'r gwaddodion yn uwch mewn ffwlbartiaid o ardaloedd tir â'r.⁷³

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir ffwlbartiaid ar ddwyter isel ar draws ardal yr astudiaeth, gyda chrynoadau ar hyd priffyrdd: mae o leiaf 46% o'r cofnodion o anafiadau ar y ffyrdd. Mae rhai o'r canolfannau cofnodion yn cael eu hachosi gan ganoli'r cofnodion nad ydynt yn fanwl gywir. Prin yw'r cofnodion o Gasnewydd hefyd, sydd yn ddisgwyliedig gan fod yno lai o gynefin ac ysglyfaeth mewn ardal drefol. Dim ond pum cofnod (2%) sydd o ffwlbart-fferet, neu ffwlbart-fferet posibl, er y gall hyn fod yn anodd ei bennu heb archwilio nodweddion y blew.

Dwysedd y cofnodion ffwlbartiaid,
(uchafswm o 5 cofnod/km²)




Cofnodion ffwlbartiaid yn ôl degawd



Tueddiadau: Nid yw'n bosibl pennu tuedd ar gyfer Gwent Fwyaf. Cadarnhaodd yr arolwg ffwlbartiaid genedlaethol a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn 2014-2015 bod y cwmpas yn sefydlog yng Nghymru a'r cwmpas yn Lloegr wedi cynyddu,⁷² ac mae'r amcangyfrifon presennol ar gyfer y boblogaeth yn dangos cynnydd yng Nghymru a Lloegr.⁵

Gwarchodaeth: Ychydig iawn o'r cofnodion (8%) sydd o'r safleoedd a warchodir, nad yw'n annisgwyl gan eu bod yn defnyddio cynefin ehangach, ychydig o arolygon penodol i ffwlbartiaid a gynhaliwyd a daw llawer o'r cofnodion o anafiadau ar y ffyrdd.

Cofnodion ffwlbartiaid a gafwyd ar safleoedd a warchodir



Llyg y Dŵr Ewrasaidd *Neomys fodiens* (Pennant, 1771)

Gwarchodaeth: Gwarchodir dan Atodlen 6 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhestr Goch:⁵ LLEIAF O BRYDER (DU a Chymru)

Data ar gael: Gwael (44 cofnod)

Cyd-destun: Ychydig iawn a wyddom am ofynion cynefin llygon y dŵr a deinameg y boblogaeth.⁷⁴ Mae'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar y gymhareb llyg cyffredin â llyg y dŵr, ond nid oes digon o ddata i bennu unrhyw

duediadau yn y boblogaeth na'r cwmpas.⁵ Cynhaliodd y Gymdeithas Mamaliaid eu Harolwg Llyg y Dŵr Cenedlaethol cyntaf yn 2004 a 2005.⁷⁵ Gellir dod o hyd i lygon y dŵr mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd dyfrol, yn ogystal â chryn bellter oddi wrth ddŵr,⁷⁴ ond mae eu natur ddirgel a'r dwyster poblogaeth isel (cyn lleied â 0.78/ha)⁵ yn eu gwneud yn anodd cynnal arolwg arnynt.


Rhagolygon: Mae'n ymddangos bod cynnydd posibl yn yr ymwybyddiaeth o lygon y dŵr yng Ngwent Fwyaf: mae dros hanner y cofnodion llygon y dŵr yn yr ardal astudio o'r ddegawd ddiwethaf, er y gall hyn fod oherwydd cynnydd cyffredinol yn y cofnodi. Fodd bynnag, rhagwelir mai'r duedd at y dyfodol i lyg y dŵr yw un o ddirywiad oherwydd dirywiad yn safon y cynefin a'i faint a diffyg cysylltedd rhwng cynefinoedd.⁵

Cwmpas Gwent Fwyaf: Cynhaliwyd arolwg ar chwe safle yng Ngwent Fwyaf fel rhan o'r Arolwg Llygon y Dŵr,⁷⁴ ond ni wnaeth unrhyw un ganfod tystiolaeth o lygon y dŵr. Mae'r cofnodion o ffynonellau eraill wedi eu gwasgaru'n denau dros yr ardal astudio. Gellir dod o hyd i ganolfannau o ran cofnodion yng Ngwlypdir Casnewydd, Parc Taf Bargoed a Thredegar Newydd, er bod hyn yn fwy tebygol o fod o ganlyniad i ymdrech i arolygu a chofnodion dyblyg posibl na'r dosbarthiad gwirioneddol.




Andy Karran

*Dwysedd llygon y dŵr
(uchafswm y dwyster yn 6
chofnod/km²)*




Cofnodion llygon y dŵr yn ôl dyddiad



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata, ar lefel leol na chenedlaethol, i gynhyrchu tueddiadau poblogaeth.

Gwarchodaeth: Daw ychydig dros 30% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gydag 16% o NNR Casnewydd. Daw dau gofnod o SSSI Cors Magwyr, a daw dau arall o rannau eraill o SSSI Gwastadeddau Gwent. Daw un cofnod o SSSI Cors Nelson. Daw'r cofnod LNR o Bwll Cwmcelyn, a daw'r cofnod SINC o Barc Coetir Bargoed.

Cofnodion llygon y dŵr o safleoedd a warchodir



Llygoden y Dŵr Ewropeaidd *Arvicola amphibius* (Linnaeus, 1758)

Gwarchodaeth: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Atodlen 5 (1981, fel y'i diwygiwyd)

Statws cadwraeth: Rhywogaethau Blaenoriaeth UK BAP, Deddf Amgylchedd (Cymru) Adran 7 Rhywogaethau. Rhestr Goch:⁷⁶ MEWN PERYGL (DU), MEWN PERYGL (Cymru)

Data ar gael: Da (3,004 cofnod)

Cyd-destun: Roedd llygod y dŵr yn gyffredin yn y gorffennol ond gwaethygyd y dirywiad yn ansawdd y cynefin yng nghanol yr ugeinfed ganrif gan eu hysglyfaethu gan Finc Americanaidd a gyflwynwyd i'r

wlad, gan arwain at golledion catastroffig. Amcangyfrifodd arolygon llygod y dŵr cenedlaethol gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent bod gostyngiad o 78% ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig rhwng 1989 a 90 a 1996–98,⁷⁷ er bod peth ansicrwydd am yr amcangyfrifon hyn o'r boblogaeth. Mae Cymdeithas y Mamaliaid yn awgrymu gostyngiad arall yn y boblogaeth o 50% rhwng 1998 a 2016.⁷⁷ Mae cwmpas llygod y dŵr hefyd wedi cyfyngu: fe wnaeth deiliadaeth ostwng o 80% rhwng y ddau arolwg llygod y dŵr cenedlaethol,⁷⁷ ac mae gwaith mapio diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r Peoples Trust for Endangered Species yn awgrymu bod gostyngiad arall yn y dosbarthiad o 30% rhwng 2006 a 2015,⁷⁷ er bod nifer wedi eu hailgyflwyno ar draws y wlad. Amcangyfrifir bod y boblogaeth yng Nghymru yn <10,000, ac ystyrir y gall y niferoedd ostwng ymhellach oherwydd darnio cynefin.⁷⁶

Rhagolygon: Ar lefel y Deyrnas Unedig, y rhagolygon ar gyfer llygod y dŵr yw y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng.⁵ Eu hysglyfaethu gan finc yw'r prif fygythiad, ond mae ansawdd y cynefin a diffyg cysylltedd hefyd yn ffactor. Mae'r Prosiect Cronfa Ddata a Mapio Llygod y Dŵr Cenedlaethol⁷⁸ yn nodi bod yr ail gyflwyno yn ymddangos yn llwyddiannus iawn wrth gadw a/neu ail gyflwyno llygod y dŵr i safleoedd – ond mae'r data o'r prosiect hwn yn awgrymu nad yw'r llwyddiannau hyn wedi cael eu hymestyn ar raddfa ddigon mawr i wydroi'r tueddiadau cenedlaethol o ran dosbarthiad.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ychydig iawn o gofnodion llygod y dŵr a geir cyn 2012, pan ailgyflwynodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent llygod y dŵr i Gors Magwyr. Roedd y cofnodion wedi eu gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent, ar hyd afon Wysg, Gwy ac Afon Lwyd a'u hisafonydd, gyda grŵp o gofnodion o Gors Nelson yng Nghaerffili. Ar ôl eu hailgyflwyno, mae llygod y dŵr wedi gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent ac mae cofnodion diweddar yn awr tua 16km o'r safle rhyddhau gwreiddiol.


Fe fu rheoli minc a gwelliannau i'r cynefin ar Afon Mynwy, ac ail gyflwynwyd llygod y dŵr ar un o'i hisafonydd, Afon Dore, ychydig y tu allan i'r ardal astudio, yn 2006.⁷⁸ Fodd bynnag, nid oes cofnodion diweddar o llygod y dŵr yn yr ardal, roedd y cofnod diweddaraf o Swydd Henffordd yn yr ardal astudio yn 1982. Nid yw'n glir pam bod hyn yn wir.

Mae gogwydd dwysedd y cofnodion oherwydd y nifer fawr o gofnodion o Gors Magwyr, felly rhoddir allwedd wedi ei haddasu er mwyn dangos y dwyster cofnodi cymharol o gwmpas Cors Magwyr ac ar draws y Gwastadeddau. Uchafswm dwyster y cofnodion ar Gors Magwyr yw 1,936 y km².




Andy Karran

*Dwysedd cofnodion llygod y dŵr
(uchafswm ar ≥ 25)*



*Cofnodion llygod y
dŵr yn ôl degawd*




Tueddiadau: Er bod ardal deiliadaeth llygod y dŵr yng Ngwent Fwyaf wedi cynyddu - mae cofnodion o 13 monad yn yr 1970au a 40 monad yn y 2010au - mae'n bwysig nodi hefyd bod graddfa'r ddeiliadaeth wedi gostwng, a bod y cwmpas wedi ei gyfyngu i Wastadeddau Gwent, gydag ychydig o gofnodion wasgaredig yn ne Torfaen, Caerffili a Mynyw.

O ran poblogaeth, gallwn gasglu bod cynnydd cyfatebol, yn arbennig ar Wastadeddau Gwent. Lanswyd y Rhaglen Fonitro Llygod y Dŵr Genedlaethol yn 2015⁷⁹ gyda'r nod o ail ymweld â safleoedd arolwg Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, ond nid oes unrhyw ganlyniadau wedi eu cyhoeddi eto.

Gwarchodaeth: Mae mwyafrif y cofnodion SSSI Gwastadeddau Gwent a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdir Casnewydd, gydag ychydig iawn (3%) o'r cofnodion o fannau eraill.

Cofnodion llygod y dŵr o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Mathews F a Harrower C. 2020. IUCN – compliant Red List for Britain’s terrestrial mammals. Assessment by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England: Peterborough. Mathews, Smith a Coomber. 2020. Cyflwr mamaliaid yng Nghymru: Adroddiad gan Gymdeithas y Mamaliaid i Gyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru.
2. People’s Trust for Endangered Species. 2020. Living with mammals update 2019. People’s Trust for Endangered Species. Llundain.
3. Cofnodi mamaliaid. British Trust for Ornithology: <https://www.bto.org/our-science/projects/bbs/taking-part/survey-methods/mammal-recording> (agorwyd 01/02/2021).
4. Gwarchodaeth dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn ôl taenlen dynodiadau cadwraeth y JNCC, yn cynnwys data NCC/NE/NRW/SNH/NIEA: <https://hub.jncc.gov.uk/assets/478f7160-967b-4366-acdf-8941fd33850b>
5. Mathews F, Kubasiewicz LM, Gurnell J, Harrower CA, McDonald RA a Shore RF. 2018. A review of the population and conservation status of British mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England: Peterborough.
6. Llywodraeth Cymru. 2017. Map Achosion TB. <https://llyw.cymru/tb-gwartheg-map-achosion> (agorwyd 24/12/19).
7. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A review of British mammals: Population estimates and conservation status of British Mammals other than cetaceans. JNCC.
8. Wildlife and Countryside Link a Dolen Amgylchedd Cymru. 2019. Wildlife crime in 2018 – A report on the scale of wildlife crime in England and Wales. Wildlife and Countryside Link a Dolen Amgylchedd Cymru: Llundain a Chaerdydd.
9. Clarke GP, White P, a Harris S. 1998. Effects of roads on badger *Meles meles* populations in south-west England. *Biological Conservation* 86(2): 117–124.
10. <https://www.wildcru.org/research/the-effects-of-weather-conditions-on-badger-population-dynamics/> (agorwyd 26/12/19)
11. Allen AR, Skuce RA a McDowell SWJ. 2011. Bovine TB: A review of badger to cattle transmission. Agri-food and Biosciences Institute: <http://www.dardni.gov.uk>
12. Crispell J, Benton CH, Balaz D, De Maio N, Ahkmetova A, Allen A, Biek R, Presho EL, Dale J, Hewinson G, Lycett SJ, Nunez-Garcia J, Skuce RA, Trewby H, Wilson DJ, Zadoks RN, Delahay RJ, Kao RR. 2019. Combining genomics and epidemiology to analyse bi-directional transmission of *Mycobacterium bovis* in a multi-host system. *Elife*: <https://elifesciences.org/articles/45833>
13. Llywodraeth Cymru. 2019. Adroddiad TB Buchol: Chwarter 2 (Ebrill i Fehefin) 2019: <https://gov.wales/bovine-tb-report-quarter-2-april-june-2019> (agorwyd 26/12/2019).
14. Llywodraeth Cymru. 2017. Rhaglen dileu TB buchol Cymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-11/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-cymru.pdf> (agorwyd 26/12/2019).
15. <https://www.bfd.wales/> (agorwyd 26/12/2019).
16. <https://llyw.cymru/grant-brechu-moch-daeor> (agorwyd 26/12/2019).

17. Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. 2018. The Wildlife Trusts' beaver reintroductions: https://www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/2018-11/181023%20Beaver%20Brochure_WEB.pdf (agorwyd 21/12/19).
18. Davies, S. 2019. Bringing beavers back. Scottish Wildlife Trust: <https://scottishwildlifetrust.org.uk/2019/05/bringing-beavers-back/> (agorwyd 21/12/19).
19. Campbell-Palmer R, Puttock A, Graham H, Wilson K, Schwab G, Gaywood MJ a Brazier R.E. 2018. Survey of the Tayside area beaver population 2017–2018. Scottish Natural Heritage Commissioned Report No. 1013.
20. Devon Wildlife Trust. 2019. River Otter Beaver Trial (ROBT) – Fourth Annual Report April 2019. Devon Wildlife Trust.
21. <https://www.forestryengland.uk/blog/beaver-trial-cropton-forest> (agorwyd 21/12/19).
22. <https://www.forestryengland.uk/beavers-greathough-brook> (agorwyd 21/12/19).
23. <https://www.dorsetecho.co.uk/news/18046199.beavers-set-return-dorset-hundreds-years/> (agorwyd 21/12/19).
24. <https://www.nationaltrust.org.uk/press-release/national-trust-announces-first-beaver-reintroductions> (agorwyd 21/12/19).
25. Jones ACL, Halley DJ, Gow D, Branscombe J, Aykroyd T. 2012. Welsh beaver assessment initiative report: An investigation into the feasibility of reintroducing European Beaver (*Castor fiber*) to Wales. Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.
26. Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru. 2018. Data rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru: Gogledd Cymru. Dataset digwyddiadau. <https://doi.org/10.15468/krlijpu> agorwyd trwy NBN Atlas ar 2019– 12–21.
27. Thompson P. 2002 (diwygiwyd 2006 a 2010). Conserving the brown hare. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
28. Ysgol Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Bryste. 2002. Integrating farm management practices with brown hare conservation in pastoral habitats. Defra Science and Research Project BD1436. DEFRA.
29. Aebischer NJ. 2020. GWCTs national gamebag census grey partridge, red grouse, brown hare: Gwent 1970—present. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
30. Aebischer NJ, Davey PD a Kingdon NG. 2011. National gamebag census: Mammal trends to 2009. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt: Fordingbridge.
31. Browne SJ ac Aebischer NJ. 2003. Arable stewardship: Impact of the pilot scheme on the brown hare and grey partridge after five years. DEFRA Report RMP1870.
32. Wembridge, Al-Fulajj a Langton. 2016. The state of Britain's dormice 2016. Peoples Trust for Endangered Species.
33. Bright, Morris a Mitchell-Jones. 2006. The dormouse conservation handbook. 2^{il} rifyn. English Nature.
34. Jermyn, Messenger a Birks. 2001. The distribution of the hazel dormouse *Muscardinus avellanarius* in Wales. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
35. Bright. 1996. Status and woodland requirements of the dormouse in England. English Nature and Peoples Trust for Endangered Species.
36. Latham, Sherry a Rothwell. 2013 (diweddarwyd 2016). Ecological connectivity and biodiversity prioritisation in the terrestrial environment of Wales. Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru.
37. White. 2019. Hazel dormice on road verges. Peoples Trust for Endangered Species.

38. Ffurflenni data o safleoedd monitro unigol diolch i'r Rhaglen Fonitro Pathewod Genedlaethol. Peoples Trust for Endangered Species.
39. Cyfanswm y nifer o bathewod aeddfed yn y gwanwyn a'r hydref a gofnodwyd yn rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Peoples Trust for Endangered Species. www.ptes.org (lawrlwythwyd 25/10/2019).
40. Riordan, Lloyd a Macdonald. 2009. Do harvest mouse nest survey results predict population size? Adroddiad i Peoples Trust for Endangered Species.
41. Poulton a Turner. 2009. A comparison of nest searches, bait tubes and live trapping for monitoring Harvest Mice (*Micromys minutus*) and other small mammals. The Mammal Society Research Report No.9. Y Gymdeithas Famaliaid. <https://www.mammal.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Research-Report-9-Methods-for-Harvest-Mice.pdf>
42. Pacheo. 2013. Harvest mouse survey – Call for volunteers. Mammal News Hydref 2013. Cymdeithas y Mamaliaid.
43. Tapping R. 2013. Harvest mice in Wales – Where they might be? Adroddiad gwyddonol CCGC Rhif 1036. Cofnod: Bangor.
44. Mathews, Smith a Coomber. 2020. Cyflwr mamaliaid yng Nghymru. Adroddiad gan y Gymdeithas Famaliaid i Gyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru.
45. Kettel, Perrow a Reader. 2016. Live trapping in the stalk zone of tall grasses as an effective of monitoring harvest mice (*Micromys minutus*). *European Journal of Wildlife Research* 62, 241–245
46. Williams D. 2015. Surrey harvest mouse project – Report for Peoples Trust for Endangered Species. Surrey Wildlife Trust.
47. <https://www.welshwildlife.org/eastglamnews/harvest-mice-on-parc-slip/> (agorwyd 05/04/2020).
48. <https://www.vwt.org.uk/projects-all/mise/> (agorwyd 05/04/2020).
49. Wilson E a Wembridge D. 2018. The state of Britain's hedgehogs 2018. Cymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain a Peoples Trust for Endangered Species.
50. Williams BM, Baker PJ, Thomas E. et al. 2018. Reduced occupancy of hedgehogs (*Erinaceus europaeus*) in rural England and Wales: The influence of habitat and an asymmetric intra-guild predator. *Sci Rep* 8: 12156.
51. Hubert P, Julliard R, Biagianti S a Poulle M-L. 2011. Ecological factors driving the higher hedgehog (*Erinaceus europaeus*) density in an urban area compared to the adjacent rural area. *Landscape and Urban Planning* 103: 34–43.
52. Wembridge D a Langton S. 2015. The state of Britain's hedgehogs 2015. Cymdeithas Cadwraeth Draenogod Prydain a Peoples Trust for Endangered Species.
53. Marnham E. (Peoples Trust for Endangered Species) Cyfathrebiad personol, Ionawr 2020.
54. Roos S, Johnston A, a Noble D. 2012. UK hedgehog datasets and their potential for long term monitoring. Adroddiad ymchwil BTO rhif. 598. British Trust for Ornithology i'r Peoples Trust for Endangered Species a Chymdeithas Gadwraeth Draenogod Prydain.
55. Wright PGR, Coomber FG, Bellamy CC, Perkins SE, Mathews F. 2020. Predicting hedgehog mortality risks on British roads using habitat suitability modelling. *PeerJ* 7: e8154.
56. Hof AR a Bright PW. 2009. The value of green spaces in built-up areas for western hedgehogs. *Lutra* 52(2): 69–82.
57. <https://ptes.org/grants/internship-projects/hedgehogs-and-climate/> (agorwyd 08/4/2020).
58. Strachan R. 2015. Arolwg dyfrgwn Cymru 2009–2010. Cyfoeth Naturiol Cymru.

59. Disgrifiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig JNCC – Rhywogaethau.
<https://sac.jncc.gov.uk/species/S1355/> (agorwyd 19/12/19).
60. Chanin P. 2003. Ecology of the European otter. Conserving Natura 2000 Rivers Ecology Series No.10. English Nature: Peterborough.
61. Conservation status assessment for the species: S1355 - Otter (*Lutra lutra*). Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (92/43/EEC). Pedwerydd adroddiad gan y Deyrnas Unedig dan Erthygl 17 (Ionawr 2013– Rhagfyr 2018).
62. Prosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd. <https://www.cardiff.ac.uk/cy/otter-project/about-us> (agorwyd 19/12/19).
63. Wilkinson C a Chadwick EA. 2012. Otter casualties in South Wales: Recommendations for mitigation. Prifysgol Caerdydd.
https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/141388/wilkinson-chadick2012-swrta.pdf.
64. Wilkinson C a Chadwick, EA (2012) Otter Casualties in Mid Wales: Recommendations for Mitigation. Prifysgol Caerdydd.
https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0013/141412/wilkinson-chadwick2012-mwrta.pdf.
65. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A review of British mammals: Population estimates and conservation status of British mammals other than cetateans. JNCC.
66. MacPherson. 2014. Feasibility assessment for reinforcing pine marten numbers in England and Wales. Prosiect Adfer Bele Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
<https://www.vwt.org.uk/projects-all/pine-marten-recovery-project/> (agorwyd 30/12/2019).
68. Cylchlythyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent Rhagfyr 2019. <https://pine-marten-recovery-project.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/VWTNewsDec2019FinalCompressed.pdf> (agorwyd 30/12/2019).
69. Croose E, Birks JDS, Schofield HW ac O'Reilly C. 2014. Distribution of the pine marten (*Martes martes*) in southern Scotland in 2013. Adroddiad a Gomisiynwyd gan Dreftadaeth Naturiol yr Alban Rhif 740.
70. JNCC. 2018. Conservation status assessment for the species: S1357 pine marten (*Martes martes*). Pedwerydd adroddiad y Deyrnas Unedig ar y Gyfarwyddeb Gynefinoedd (Ionawr 2013–Rhagfyr 2018). <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1357-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf> (agorwyd 30/12/2019).
71. Croose E. 2016. The distribution and status of the polecat (*Mustela putoris*) in Britain 2014–2015. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.
72. Croose E, Duckworth JW, Ruetten S, Skumatov DV, Kolesnikov VV a Saveljev AP. 2018. A review of the status of the western polecat *Mustela putoris*: A neglected and declining species? *Mammalia* 82(6): 550–564.
73. Sainsbury KA, Shore RF, Schofield H, Croose E, Pereira MG, Sleep D, Kitchener AC, Hanke G a McDonald RA. 2018. Long-term increase in secondary exposure to anticoagulant rodenticides in European polecats *Mustela putoris* in Great Britain. *Environmental Pollution* 235: 689–698.
74. Carter P a Churchfield S. 2006. Distribution and habitat occurrence of water shrews in Great Britain. Environment Agency Science Report SC010073/SR. Environment Agency: Bristol.
75. Carter P. 2006. Shrew News Gwanwyn 2006. Y Gymdeithas Mamaliaid: Llundain.
76. Mathews F, Harrower C a Mammal Society. 2020. IUCN-compliant Red List assessment for Britain's terrestrial mammals. Natural England: Peterborough.

- ⁷⁷. McGuire C a Whitfield D. 2017. National water vole database and mapping project part 1: Project report 2006–2015. Cyfoeth Naturiol Cymru, Peoples Trust for Endangered Species a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.
- ⁷⁸. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt.
<https://www.gwct.org.uk/research/species/mammals/water-vole/reintroducing-water-voles-to-the-river-dore/> (agorwyd 1/1/2020).
- ⁷⁹. Peoples Trust for Endangered Species (PTES). <https://ptes.org/get-involved/surveys/countryside-2/national-water-vole-monitoring-programme/about-our-water-vole-survey/>
- ⁸⁰. Sainsbury KA, Shore RF, Schofield H, Crosse E, Campbell RD, a McDonald RA (2019) Recent history, current status, conservation and management of native mammalian carnivore species in Great Britain. *Mammal Review* 49: 171–188.

Ystlumod

Mae 18 rhywogaeth o ystlum yn y Deyrnas Unedig, 15 ohonynt i'w gweld yng Ngwent Fwyaf. Mae'r holl rywogaethau yn cael eu diogelu yn gyfreithiol trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) (fel y'i diwygiwyd) (Atodlen 2) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd) (Atodlen 5). Mae llawer o rywogaethau o ystlumod wedi dioddef dirywiad dramatig yn y ganrif ddiwethaf, ond mae'r warchodaeth gyfreithiol gref, gwaith cadwraeth a mwy o



Andy Karran

ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn golygu bod rhai yn adfer. Fodd bynnag, mae ystlumod yn dal dan fygythiad oherwydd problemau fel colli cynefin, safleoedd clwydo a meysydd hela a'r darnio sy'n effeithio ar lwybrau i feysydd hela. Mae'n hysbys hefyd eu bod yn agored i wrthdrawiadau â melinau gwynt â barotrawma.¹ Mae goleuadau artiffisial hefyd yn cael effaith negyddol ar ystlumod, gan achosi oedi cyn dod allan (gan arwain at lai o gyfle i hela), gadael clwydi, llai o lwyddiant wrth fagu, newidiadau i lwybrau cymudo, llai o hela, ac amharu arnynt pan fyddant yn gaeafgysgu.²

Mae Grŵp Ystlumod Sir Fynwy (Casnewydd a Sir Fynwy) a Grŵp Ystlumod y Cymoedd (Blaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili) yn weithredol yng Ngwent Fwyaf.

Rhagolygon: Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau o ystlumod yng Ngwent Fwyaf yn sefydlog neu'n cynyddu ar lefel y Deyrnas Unedig, gyda darlun mwy cymysg yng Nghymru. Mae diffyg data am rywogaethau mwy prin fel yr Ystlum Adain-lydan a'r Ystlum Du Gorllewinol. Mae'r dirywiad parhaus ym maint ac ansawdd y cynefinoedd fel gwrychoedd a choetir yn debygol o effeithio ar ffynonellau bwyd ystlumod. Er bod ymwybyddiaeth gynyddol o effaith goleuadau ar ystlumod, mae llygredd golau wedi cynyddu'n ddramatig³ ac mae'n debygol o barhau i gynyddu gyda datblygiadau newydd. Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar niferoedd ac argaeledd pryfed a gall arwain at newidiadau yng nghwmpas ystlumod wrth ymateb i hynny. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn newid maint a dosbarthiad cynefinoedd dŵr croyw fel pyllau a gwlypdir, a fydd yn effeithio ar faint o ysglyfaeth fydd ar gael i rywogaethau fel Ystlum y Dŵr.

Statws presennol a thueddiadau ystumod yng Ngwent Fwyaf: Mae tua 20,000 o gofnodion ystumod i'r ardal astudio, ond mae hyn yn amrywio'n fawr rhwng rhywogaethau. Rhoddir y statws yn ôl meini prawf Rhestr Goch IUCN, fel y cyfrifwyd gan Matthews et al.;¹ mae'r thueddiadau o 1999 hyd 2018, fel y'i cyfrifwyd gan ganlyniadau'r Rhaglen Fonitro Ystumod Genedlaethol ddiweddaraf.³ DD (Data Diffygiol), LC (Lleiaf o Bryder), NT (Dan Beth Bygythiad), VU (Bregus) ac EN (Perygl o Ddifodiant). Sylwer mai ychydig o ddata hanesyddol sydd ar gael am boblogaethau o ystumod³, felly, er bod y thueddiadau yma'n ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan, nid yw graddfa'r colledion yn y boblogaeth cyn dechrau cofnodi'n gyson yn wybyddus. Gwelodd y boblogaeth o ystumod ostyngiad sylweddol, felly mae'n debyg, lle mae rhywogaethau'n adfer, ei fod o waelodlin isel iawn.

Rhywogaeth	Statws y DU ¹	Statws Cymru ¹	Tuedd y DG ⁴	Tuedd Cymru ³	Nifer y cofnodion *
Ystum Pedol Mwyaf (<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>)	LC	NT	Cynnydd Sylweddol	Cynyddu hyd 2011, amrywio yn fwy diweddar	257
Ystum Pedol Lleiaf (<i>R. hipposideros</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol	Cynnydd sylweddol	2,321
Ystum y Dŵr (<i>Myotis daubentonii</i>)	LC	LC	Sefydlog	Cynyddu	351
Ystum Barfog/Brandt (<i>M. mystacinus/M. brandtii</i>)	DD	DD	Sefydlog	Amrywiol, cael ei ystyried yn sefydlog	394
Ystum Natterer (<i>M. nattereri</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol **	Cynnydd sylweddol yn gyffredinol, gyda dirywiad diweddar ers 2015	288
Ystum Lleiaf Cyffredin (<i>Pipistrellus pipistrellus</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol	DD	3,161 ⁺
Ystum Lleiaf Soprano (<i>P. Pygmaeus</i>)	LC	LC	Cynnydd sylweddol **	Dirywiad sylweddol ond y canlyniadau'n annibynadwy**	1,316 ⁺
Ystum Lleiaf Nathusius (<i>P. nathusii</i>)	NT	VU	DD	DD	20
Ystum Adain-lydan (<i>Eptesicus erotinus</i>)	VU	VU	Sefydlog	DD	150
Ystum Mawr (<i>Nyctalus noctula</i>)	LC	LC	Sefydlog	DD	919
Ystum Leisler (<i>N. leisleri</i>)	NT	NT	DD	DD	20

Ystlum Hirglust (<i>Plecotus auritus</i>)	LC	LC	Sefydlog	Cynyddu hyd 2015, yn awr credir ei fod yn sefydlog	675
Ystlum Bechstein (<i>M. bechsteini</i>)	LC	EN	DD	DD	13
Ystlum Du Gorllewinol (<i>Barbastella barbastellus</i>)	VU	VU	DD	DD	21

*nifer o gofnodion yng Ngwent Fwyaf


**dylid trin gyda gofal nes bydd rhagor o ymchwil a monitro wedi digwydd

+ sylwer bod 230 o gofnodion ychwanegol cyn i'r rhywogaethau ystlum lleiaf gael eu gwahanu



Y Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol (NBMP): Caiff poblogaeth yr ystlumod ar draws y Deyrnas Unedig ei monitro trwy'r NBMP, a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. Yn ardal yr astudiaeth, mae 49 safle cyfri clwydi ac 11 o safleoedd gaeafgysgu wedi eu cofrestru gyda'r NBMP. Fodd bynnag, mae'r nifer o flynyddoedd y dychwelwyd cofnodion ar eu cyfer yn amrywio o 1 i 30. Y rhywogaethau a gafodd eu cyfrif oedd Ystlum Lleiaf/Soprano (15 clwyd), Ystlum Hirglust (1 glwyd), Ystlum Brandt/Barfog (2 lleoliad gaeafgysgu), Ystlum Natterer (1 lleoliad gaeafgysgu), Ystlum Pedol Mwyaf (2 glwyd, 4 lleoliad gaeafgysgu) a'r Ystlum Pedol Lleiaf (31 clwyd, 11 lleoliad gaeafgysgu). Sylwer bod rhai safleoedd sy'n cael eu monitro yn cynnal nifer o rywogaethau.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir ystlumod ar draws Gwent Fwyaf, gyda chrynhoad mawr o gofnodion ar hyd Dyffryn Gwy a Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, yn ogystal â Chwm Clydach ac ardal ffin Caerffili/Casnewydd. Mae amrywiaeth mawr o rywogaethau o ystlumod yn yr ardaloedd hyn hefyd. Sylwer bod uchafswm y dwyster cofnodion wedi ei osod ar ≥ 100 , gan y byddai'r lefel uchel o gofnodi yng Nghwm Clydach oherwydd y gwaith ffordd (uchafswm o 858 cofnod i bob tetrad) yn cael gwared ar unrhyw amrywiad arall. Rhoddir y map mewn tetradau, i ddiogelu lleoliadau clwydi penodol.

Dwysedd y cofnodion
(pob rhywogaeth o
ystlumod) yn ôl tetrad
(uchafswm wedi ei
osod ar ≥ 100
cofnod/tetrad)




Nifer y
rhywogaethau a
gofnodwyd/km²



Gwarchodaeth: Daw ychydig llai na 28% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o AGA ystlumod dynodedig yn Sir Fynwy a Blaenau Gwent, ac AGA Coetir Dyffryn Gwy.

Yr holl gofnodion ystlumod o safleoedd a warchodir



Ystlum Bechstein *Myotis bechsteinii* (Kuhl, 1817)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Mewn Perygl (Cymru), Lleiaf o Bryder (DG),⁵ Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (13 cofnod)

Cyd-destun: Mae Ystlum Bechstein yn rhywogaeth brin, ac ychydig sy'n hysbys amdanynt. Mae eu hadlaisleoli tawel yn eu gwneud yn anodd eu

canfod. Cyfyngir eu cwmpas i dde Lloegr a gororau Cymru. Mae'n well ganddynt gynefin coetir llydanddail, yn neilltuol coetir hynafol.⁶ Cyn 2005 credid mai dim ond chwe phoblogaeth oedd yn magu⁷, ond yn awr amcangyfrifir bod y boblogaeth Brydeinig rhwng 10,300 a 55,600,⁵ a phoblogaeth Cymru yn 120 i 630⁸ (gyda llawer iawn o ansicrwydd).

Rhagolygon: Mae'r wybodaeth am y rhywogaeth a'r cofnodi'n gwella, yn neilltuol trwy ddefnyddio abwyd acwstig.⁶ O ystyried sensitifrwydd y rhywogaeth i ansawdd y coetir, yn neilltuol y gorchudd dan y coed, gall dirywiad yng nghyflwr coetiroedd gael effaith negyddol ar Ystlumod Bechstein. Gall newid hinsawdd effeithio ar yr ysglyfaeth sydd ar gael, ond mae'n anodd rhagweld yr effeithiau.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Dim ond yn nwyrain Gwent Fwyaf y mae Ystlum Bechstein i'w weld, sy'n cyfateb i gyrion y cwmpas Prydeinig. Ychydig o gofnodion sydd ar gael, gan fod ystlumod Bechstein fel arfer yn cael eu cofnodi trwy drapio arbenigol dan drwydded. Mae'n debyg bod hyn yn tannardarlunio dosbarthiad Ystlum Bechstein, o ystyried yr anawsterau wrth eu cofnodi a'r ffaith bod cynefin posibl ar gael yn Nyffryn Gwy. Mae Grŵp Ystlumod Sir Fynwy yn cofnodi dal hyd at 25 o ystlumod gwryw mewn safleoedd heidio, sy'n dynodi bod poblogaeth sylweddol.⁹ Nid yw'n hysbys pam nad yw'r cofnodion hyn gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Cymru (SEWBRc).

Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r cofnodion yn cynnwys cytref sefydledig (a gofnodwyd ddwywaith mewn blynnyddoedd gwahanol yn yr un lleoliad) ac un fenyw feichiog, yr unig gytref magu y gwyddys amdano yng Nghymru. Mae'r holl gofnodion o 2011 ymlaen, gan adlewyrchu dulliau cofnodi gwell a diddordeb diweddar yn y rhywogaeth.




Steve Wadley

*Dosbarthiad cofnodion ystlum
Bechstein ar draws Gwent
Fwyaf (uchafswm 3
chofnod/km²)*




*Cofnodion ystlum Bechstein
yn ôl degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata ar gael i bennu tuedd lleol na chenedlaethol ar gyfer Ystlumod Bechstein.⁵ Mae data genynnol yn awgrymu bod dirywiad wedi bod yn ddiweddar ym Mhrydain Fawr, ond mae lefelau'r mewnfridio yn llai nag yr ofnid yn y gorffennol.

Gwarchodaeth: Daw 27% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Coetir Dyffryn Gwy a SINC Colonels Wood. Mae'n debygol bod y defnydd o goetiroedd a warchodir gan Ystlumod Bechstein yn uwch nag a ddynodir, oherwydd eu bod yn ffafrio coetir o safon uchel.

Cofnodion Ystlumod Bechstein o safleoedd a warchodir



Ystlum Pedol Mwyaf *Rhinolophus ferrumequinum* (Schreber, 1774)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Lleiaf o Bryder (DG), Agos at Fod dan fygythiad (Cymru)⁵

Data ar gael: Gwael (7 cofnod)




Steve Wadley

Cyd-destun: Ystlumod Pedol Mwyaf yw un o'r rhywogaethau mwyaf o ystlumod ym Mhrydain, gan borthi dros gyrion coetiroedd, gwrychoedd, porfeydd a pharcdir. Fel arfer mae'r clwydi magu mewn adeiladau, ac ogofau neu dwneli yw'r safleoedd gaeafu fel arfer.⁵ Amcangyfrifir bod y nifer o Ystlumod Pedol Mwyaf wedi dirywio o dros 90% yn y 100 mlynedd diwethaf, oherwydd ffactorau fel ymyrryd â'r clwydi a newidiadau mewn arferion amaethyddol.¹⁰ Yn fwy diweddar, mae poblogaeth a chwmpas yr Ystlumod Pedol Mwyaf wedi bod yn cynyddu, ers yr 1990au.^{5,11} Credir bod hyn oherwydd y cryfhau ar y warchodaeth gyfreithiol a gaeafau mwy mwyn efallai.⁵ Amcangyfrifir bod poblogaeth y Deyrnas Unedig yn 12,951 o unigolion,¹² gyda 2,751 yng Nghymru.¹³


Rhagolygon: Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu o ran maint a chwmpas,⁵ ac mae statws cadwraeth ffafriol y rhywogaeth yn debygol o barhau.^{12,13} Yng Ngwent Fwyaf, mae'n ymddangos bod y duedd gyffredinol yn gadarnhaol, er y gall datblygiadau newydd effeithio ar y clwydi.¹⁴ Mae gaeafau mwynach oherwydd newid hinsawdd yn debygol o ffafrio'r Ystlumod Pedol Mwyaf, er nad yw effaith newid hinsawdd ar y rhywogaethau y maent yn eu hysglyfaethu mor glir. Mae'r bygythiadau sy'n parhau yn cynnwys amharu ar glwydi a newidiadau mewn amaethyddiaeth, fel y defnydd o blaleiddiaid.

Cwmpas Gwent Fwyaf: Mae tair clwyd fagu y gwyddys amdanynt i Ystlumod Pedol Mwyaf yng Ngwent Fwyaf: Trefynwy, Caerffili a Wyndcliffe (a ddarganfuwyd yn 2017). Mae dwy ardal aeafu bwysig hefyd, yng Nghwm Clydach ac ar gyrion Fforest y Ddena. Mae mwy o gofnodion ar gyfer ardal Fforest y Ddena, ond gall hyn fod oherwydd gwahaniaeth yn yr ymdrech gofnodi, gan fod safleoedd gaeafgysgu yn aml yn anodd mynd atynt. Mae clwyd lai hefyd yn yr ardal glustogi yn Swydd Henffordd. Mae'r rhain yn creu pedair ardal benodol o bwysigrwydd i ystlumod pedol mwyaf, gydag ychydig iawn o gofnodion o'r tu allan i'r ardaloedd yma.

*Dosbarthiad cofnodion
Ystlumod Pedol Mwyaf
ar draws Gwent Fwyaf
(uchafswm o 109 cofnod
i bob tetrad)*




*Cofnodion Ystlumod Pedol
Mwyaf yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae dwy o'r clwydi yn cael eu monitro trwy'r Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol (NBMP). Mae'r data ar gyfer Caerffili yn dangos tuedd ar i fyny, tra nad oes tuedd glir yn y data ar gyfer clwyd Trefynwy ac mae data ar goll am rai blynyddoedd. Mae'r ddwy glwyd, fodd bynnag, wedi aros uwch ben eu statws cadwraeth ffafriol o 80 oedolyn^{15,16} am y ddegawd ddiwethaf.

Cyfrif NBMP uchaf ar gyfer Ystlumod Pedol Mwyaf yng nghlwydi magu Trefynwy a Chaerffili.



Gwarchodaeth: Daw hanner (50%) cofnodion Ystlumod Pedol Mwyaf Gwent Fwyaf o safleoedd a warchodir, gyda bron i draean o'r cofnodion o SAC Ystlumod Dyffryn Gwy a SAC Coetir Dyffryn Gwy. Mae clwyd famolaeth Trefynwy yn rhan o SAC Ystlumod Dyffryn Gwy, ac mae clwyd fagu Caerffili yn SSSI. Mae rhannau o'r ardaloedd gaeafgysgu yn cael eu diogelu fel SAC, NNR a SSSI. Fodd bynnag, mae llawer o gofnodion o'r tu allan i ardaloedd a warchodir. Gellir esbonio hyn oherwydd bod SAC Ystlumod Dyffryn Gwy yn fychan, wedi ei gyfyngu i strwythur y glwyd, felly nid yw llawer o gofnodion yn gysylltiedig â'r glwyd yn disgyn o'i mewn, yn arbennig felly cofnodion llai cywir. Hefyd, gall ystlumod pedol mwyaf chwilio am fwyd bellter o'u clwyd; mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn argymhell parth cynhaliaeth craidd o 3km o radiws.¹⁷

Cofnodion Ystlumod Pedol Mwyaf o safleoedd a warchodir



Ystlum Pedol Lleiaf *Rhinolophus hipposideros* (Bechstein, 1800)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Lleiaf o Bryder (DU a Chymru),⁵ Rhywogaethau Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Da (3,168 cofnod)

Cyd-destun: Ystlumod Pedol Lleiaf yw un o'n rhywogaethau ystlum lleiaf, gyda chwmpas cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig, wedi ei gyfyngu i Gymru, gorllewin Lloegr a gorllewin Iwerddon.¹⁸ Gwelwyd dirywiad difrifol a diflannodd yn gyfan gwbl mewn rhai ardaloedd ar draws gogledd a gorllewin Ewrop ers yr 1950au.³ Nid yw'r rhesymau am y dirywiad yn cael eu deall yn llawn, ond maent wedi cael eu cysylltu â dwysau amaethyddol, colli ardaloedd chwilio am fwyd a cholli clwydi a mannau gaeafgysgu.¹⁸



Steve Wadley


Mae astudiaethau diweddar yn dynodi bod y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig yn adfer,⁵ ac mae'r adroddiadau Erthygl 17 diweddaraf¹⁹ yn rhoi Statws Ffafirol o ran poblogaeth yr Ystlum Pedol Lleiaf a'i gwmpas, gydag amcangyfrif poblogaeth o 50,400 (sy'n sylweddol uwch na'r amcangyfrifon blaenorol). Mae Ystlumod Pedol Lleiaf wedi bod yn ganolbwynt i waith cadwraeth wedi ei dargedu, yn neilltuol gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Vincent, sydd yn berchen ar nifer o glwydi ac yn eu rheoli. Cynhaliwyd y prosiect 'Our Beacons for Bats' o 2010 i 2014 a digwyddodd ar derfyn yr ardal astudio a thu hwnt; roedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, mapio ble'r oedd yr ystlumod yn chwilio am fwyd a chymudo, a gwella'r cynefin.

Rhagolygon: Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y boblogaeth a'r cwmpas yng Nghymru yn parhau i gynyddu.⁵ Mae'r Ystlum Pedol Lleiaf wedi cael budd o warchodaeth gyfreithiol gref, dynodi clwydi mannau gaeafgysgu a thiroedd chwilio am fwyd fel safleoedd a warchodir, ac ymdrechion cadwraeth wedi eu targedu. Mae'r bygythiadau at y dyfodol yn cynnwys newid mewn defnydd tir, ffyrdd, goleuadau artiffisial ac aflonyddu.⁵ Mae'n debyg y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar faint o ysglyfaeth fydd ar gael a gaeafgysgu, ond mae'n anodd rhagweld yr effeithiau.


Cwmpas Gwent Fwyaf: Gwelir Ystlumod Pedol Lleiaf ar draws gogledd a dwyrain Gwent Fwyaf, gyda chanolfannau o ran cofnodi yng Nghwm Clydach, SAC Safle Ystlumod Wysg, SAC Coetir Dyffryn Gwy a SAC Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena.

Mae Gwent Fwyaf yn cynnwys dwy SAC sydd wedi eu dynodi oherwydd eu poblogaeth o Ystlumod Pedol Lleiaf: SAC Safleoedd Ystlumod Wysg, sy'n gartref i 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig; a SAC Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, sy'n gartref i'r crynhoad mwyaf yn y Deyrnas Unedig (tua 26% o boblogaeth y Deyrnas Unedig). Mae'n bwysig nodi bod y ddau safle a warchodir yma yn ymestyn ymhell tu hwnt i Went Fwyaf.


*Dosbarthiad cofnodion
Ystlumod Pedol Lleiaf ar
draws Gwent Fwyaf (yn
ôl tetrad) (uchafswm \geq
100/tetrad)*



*Cofnodion Ystlumod Pedol
Lleiaf yn ôl degawd*




Tueddiadau poblogaeth: Mae 31 o glwydi ac 11 o fannau gaeafgysgu yn yr ardal astudio wedi cael eu monitro fel rhan o'r NBMP, ond dim ond ychydig o flynyddoedd o ddata sydd gan lawer ohonynt. Mae'r mynegai canlynol yn dangos y cyfrif uchaf o 14 safle clwydo gyda 15 neu fwy o adroddiadau, pan oedd ffurflen yn 1999, y flwyddyn sail a ddefnyddir gan yr NBMP. Sylwer nad yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, gan ei fod yn seiliedig ar nifer gyfyngedig o safleoedd, ond mae'n dilyn patrwm tebyg o gynnydd cyffredinol i'r tueddiadau cenedlaethol a gynhyrchwyd gan yr NBMP.¹¹



Mae gan dair o'r clwydi magu yn AGA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena gofnodion NBMP; mae'r cofnodion diweddaraf ar gyfer y tair yn uwch na'r terfyn isaf ar gyfer amodau ffafriol. Mae monitro'n fwy cymhleth yn SAC Safleoedd Ystlum Brynbuga oherwydd bod yn rhaid i fynediad i ogofâu, ac anghenion monitro gael eu gwrthbwysu â'r risg o amharu arnynt.

Gwarchodaeth: Daw 46% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o'r cofnodion o AGA Safleoedd Ystlumod. Mae'n bwysig cydnabod y nifer fawr o gofnodion o'r tu allan i safleoedd a warchodir, sy'n dangos defnydd o gefn gwlad yn ehangach ar gyfer cymudo a chwilio am fwyd, gan mai dim ond diogelu strwythur y glwyd neu'r lleoliad gaeafgysgu y mae'r AGA.

Cofnodion Ystlumod Pedol Lleiaf o safleoedd a warchodir



Ystlum Du Gorllewinol (*Barbastella barbastellus*) (Schreber, 1774)

Gwarchodaeth: Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) Atodlen 2. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 5

Statws cadwraeth: Bregus (Du a Chymru),⁵ Rhywogaethau UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

Data ar gael: Gwael (32 cofnod)



Hugh Clark/www.bats.org.uk


Cyd-destun: Mae'r Ystlum Du Gorllewinol yn rhywogaeth brin, ac ychydig sy'n hysbys am ei ecoleg a'i ddsbarthiad. Mae ei gwmpas wedi ei wasgaru'n denau dros dde Lloegr a Chymru, a chredir bod yn well ganddo dirwedd goediog gyda dŵr.²⁰ Amcangyfrif bod poblogaeth Cymru ar ddim ond 500 unigolyn,²¹ ond mae hyn yn seiliedig ar ychydig iawn o ddata.

Rhagolygon: Nid oes digon o ddata am y rhywogaeth i bennu tuedd yn y boblogaeth.⁵ Fodd bynnag, os yw'r boblogaeth yn isel a thenau, mae hyn yn gwneud y rhywogaeth yn neilltuol o fregus. Mae'n debyg bod newidiadau yn nefnydd tir yn cael effaith negyddol ar Ystlumod Du Gorllewinol.²¹


Cwmpas Gwent Fwyaf: Ceir cofnodion gwasgaredig ar gyfer ystlumod du ar hyd Dyffryn Gwy, gydag ychydig o gofnodion yng nghanol Sir Fynwy. Mae tri chofnod o Ystlum Du Gorllewinol yn SAC Safleoedd Ystlumod Brynbuga (heb eu mapio gan nad ydynt yn digwydd mewn sgwâr grid cyflawn) yn dyddio o'r 1970au, ond mae'r cofnodion eraill i gyd o 2010 ymlaen. O ystyried yr ymdrech gofnodi fawr yn ac o gwmpas SAC Ystlumod Brynbuga dros gyfnod maith, mae'n debyg bod y boblogaeth yno wedi marw allan, neu bod y cofnodion gwreiddiol yn wallus.

Mae'n ymddangos bod yr Ystlumod Du Gorllewinol yn llai tebygol o gael eu cofnodi ar hap na rhywogaethau eraill o ystlumod. Daw hanner y cofnodion SEWBReC ar gyfer yr Ystlum Du Gorllewinol o drapiau (dan drwydded), weithiau gydag olrhain radio. Yn yr un modd â llawer o rywogaethau, mae ymdrechion yn debygol o greu gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol ond mae trapio ac olrhain yn ddrud ac yn gofyn am gryn arbenigedd, yn ogystal â chymeradwyaeth trwyddedu.

*Dosbarthiad cofnodion
Ystlum Du Gorllewinol ar
draws Gwent Fwyaf
(uchafswm 5 cofnod/km²)*




*Cofnodion Ystlum Du
Gorllewinol yn ôl degawd*



Tueddiadau poblogaeth: Nid oes digon o ddata i bennu unrhyw dueddiadau poblogaeth ar gyfer Ystlumod Du Gorllewinol.

Gwarchodaeth: Dim ond 14% o'r cofnodion sy'n dod o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Coetir Dyffryn Gwy a SINC Colonels Wood. Fodd bynnag, d mae nifer fawr o gofnodion o AONB Dyffryn Gwy. Gall Ystlumod Du Gorllewinol deithio pellter mawr o'u clwydi (sydd yn aml yn newid lleoliad dros amser), a'r argymhelliad ar hyn o bryd yw rheoli tirwedd yn gadarnhaol o fewn 7km o safle clwyd,²² felly mae'n debygol bod llawer o'r coetir a warchodir yn Nyffryn Gwy yn cael eu defnyddio ar gyfer clwydo neu chwilio am fwyd.

Cofnodion Ystlumod Du Gorllewinol o safleoedd a warchodir



Cyfeiriadau

1. Mathews F, Richardson S, Lintott P a Hosken D. 2016. Understanding the Risk to European Protected Species, (bats) at Onshore Wind Turbine Sites to inform Risk Management. Prifysgol Caerwysg, ariannwyd gan DEFRA
2. Stone EL. 2013. Bats and Lighting: Overview of current evidence and mitigation.
3. Harris S, Morris P, Wray S a Yalden D. 1995. A Review of British Mammals: Population Estimates and Conservation Status of British Mammals other than Cetaceans. JNCC, Peterborough
4. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. Adroddiad y Rhaglen Fonitro Ystlumod Genedlaethol 2019. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: <http://www.bats.org.uk/our-work/national-bat-monitoringprogramme/reports/nbmp-annual-report>.
5. Mathews F, Kubasiewicz LM, Gurnell J, Harrower CA, McDonald RA a Shore RF. 2018. A Review of the Population and Conservation Status of British Mammals. A report by the Mammal Society under contract to Natural England, Natural Resources Wales and Scottish Natural Heritage. Natural England, Peterborough.
6. Miller H. 2011. Bechstein's Bat Survey Final Report September 2007–September 2011. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.
7. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Bechstein's Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain
8. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation assessment for the species: S1323 Bechstein's bat (*Myotis bechsteinii*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1323-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
9. Grŵp Ystlumod Sir Fynwy. 2021. Cyfathrebiad Personol.
10. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Greater Horseshoe Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
11. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. The National Bat Monitoring Programme 2019. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
12. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation status assessment for the species: S1304 Greater horseshoe bat (*Rhinolophus ferrumequinum*): <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1304-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
13. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation assessment for the species: S1304 Greater horseshoe bat (*Rhinolophus ferrumequinum*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1304-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
14. Jones A a Stinchcombe K. 2021. Cyfathrebiad Personol.
15. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. Cynllun Rheoli Craidd Safle Cadwraeth Arbennig Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
16. Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2011. Castell Ruperra a Safle Coetir o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: Eich Safle Arbennig a'i Dyfodol. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.
17. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2020. Core Sustainance Zones and habitats of importance for designing Biodiversity Net Gain for bats. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
18. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Lesser Horseshoe Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.
19. JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Conservation Status Assessment for the species: S1303 Lesser Horseshoe Bat (*Rhinolophus hipposideros*): <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1303-UK-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
20. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. 2010. Barbastelle Bat Factsheet. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Llundain.

- ^{21.} JNCC. 2019. Fourth Report by the United Kingdom under Article 17 Supporting documentation for the conservation status assessment for the species: S1308 Barbastelle (*Barbastella barbastellus*), Wales: <https://jncc.gov.uk/jncc-assets/Art17/S1308-WA-Habitats-Directive-Art17-2019.pdf>
- ^{22.} Zeale M, Davidson- Watts I a Jones G. 2012. Home Range Use and Habitat Selection by Barbastelle Bats.